# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 15 a 22 Mawrth 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| 2 | Cwestiynau i'r Prif Weinidog |
| 3 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon |
| 7 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau |
| 10 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau |
| 13 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad |
| 15 | Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid |
| 26 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 43 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio |
| 44 | Cwestiynau i'r Trefnydd |
| 44 | Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ |

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Leanne Wood:** Faint y mae'r Prif Weinidog wedi'i wario ar ffioedd ymgynghorwyr ym mhob blwyddyn rhwng 2002-03 a 2005-06? (WAQ48517) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at WAQ47898 a WAQ48518.

**Glyn Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau a yw ei adran yn defnyddio golau traffig mewnol neu system o godau lliw mewn perthynas â chwestiynau ysgrifenedig y Cynulliad ac a yw'r adran yn graddio neu ddosbarthu cwestiynau ysgrifenedig y Cynulliad yn ôl eu sensitifrwydd gwleidyddol? (WAQ48749)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Nid oes system ddosbarthu o'r fath yn bodoli yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Prif Weinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48761)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi darparu'r ateb canlynol.

Amgaeaf ddadansoddiad o'r dyfarniadau bonws ar sail perfformiad yn ôl adran yn unol â'ch cais. Mae nifer o unigolion wedi cael eu cynnwys dan y pennawd 'adrannau bach' i sicrhau eu bod yn aros yn anhysbys.

| **Adran** | **Y nifer o unigolion a gafodd ddyfarniad bonws** | |
|---|---|---|
| | **2004-05** | **2005-06** |
| Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol | 10 | 8 |
| Amgylchedd, cynllunio a chefn gwlad | 4 | 4 |
| Gwasanaethau cyfreithiol | 2 | 4 |
| Gwybodaeth a gwasanaethau corfforaethol | 4 | 3 |
| Llywodraeth leol a diwylliant | 6 | 5 |
| Adrannau bach | 13 | 11 |
| Addysg, dysgu gydol oes a sgiliau | 7 | 6 |
| Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol | 8 | 9 |
| Menter, arloesi a rhwydweithiau | 10 | 8 |
| Adnoddau dynol | 3 | 3 |
| Gwasanaethau cyhoeddus a pherfformiad | - | 8 |
| Datblygu busnes | - | 3 |
| Cyllid | 7 | 3 |
| Cyfanswm | 74 | 75 |

* Trosglwyddwyd rhai o gyfrifoldebau'r Adran Gyllid i'r Adran newydd Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn 2005-06.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47893) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Leanne Wood:** Faint y mae'r Prif Weinidog wedi'i wario ar ffioedd ymgynghorwyr ym mhob blwyddyn rhwng 2002-03 a 2005-06? (WAQ48520) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at WAQ47898 a WAQ48518.

**Glyn Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau a yw ei adran yn defnyddio golau traffig mewnol neu system o godau lliw mewn perthynas â chwestiynau ysgrifenedig y Cynulliad ac a yw'r adran yn graddio neu ddosbarthu cwestiynau ysgrifenedig y Cynulliad yn ôl eu sensitifrwydd gwleidyddol? (WAQ48750) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ48749.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Gweinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48757) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48761.

**Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar brif lwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes y portffolio diwylliant, y Gymraeg a chwaraeon, yn etholaeth Ogwr er 2003? (WAQ49732)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Er 2003, Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflawni llawer iawn yn gwella'r cyfleoedd i bobl Ogwr gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o brofiadau diwylliannol a chwaraeon a'u mwynhau. Er enghraifft:

- mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi darparu grantiau gwerth bron i £113,000 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer prosiectau i'r sir gyfan. Mae hyn yn cynnwys rhyw £37,000 ar gyfer hyfforddiant yn y diwydiannau creadigol sydd wedi cael ei gynnig i bobl ifanc ar draws Pen-y-bont ar Ogwr er 2005-06. Yn dilyn ei adolygiad o gelfyddydau yn y gymuned, mae Celfyddydau Cymuned Cwm a Bro, mudiad sy'n gweithio yn ardal Ogwr, wedi cael cynnydd sylweddol yn ei gyllid refeniw a bydd yn cael £142,420 yn 2007-08. Darparwyd £30,000 o gyllid yn 2003-04 ar gyfer swydd swyddog datblygu'r celfyddydau am dair blynedd; swydd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei chyllido erbyn hyn.
- Mae cymorth CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru i amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd lleol yn etholaeth Ogwr yn cynnwys grantiau o ryw £48,000 a dalwyd yn 2004-05, £47,000 a dalwyd yn 2005-06 a thros £30,000 a ddyrannwyd yn 2006-07;
- drwy ein gwasanaeth ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, Cadw, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnig rhyw £120,000 mewn cymorth grant i helpu i atgyweirio ac adfer rhai o'r adeiladau hanesyddol pwysicaf yn yr etholaeth. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cytundeb gyda'r awdurdod lleol i ran gyllido partneriaeth cynllun tref er mwyn adfer nodweddion hanesyddol gwreiddiol yn Park Terrace yn Nhon-du, sy'n rhestredig. Mae cynlluniau o'r math hwn wedi'u bwriadu i annog

adfywio drwy gadw adeiladau hanesyddol, a gwella ymddangosiad ardaloedd cadwraeth sydd wedi dirywio;

- yr ydym yn gwneud cynnydd cyson yn ein hymdrech i gyrraedd y targedau a osodwyd yn 'Dringo'n Uwch'. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi adrodd bod y lefelau gweithgarwch corfforol ymysg oedolion wedi cynyddu 4 y cant er 2003, sy'n gynnydd arbennig o dda ac yn cyfateb i 95,000 ychwanegol o oedolion yn cyrraedd lefel weithgarwch o 30 munud/pum diwrnod yr wythnos. Mae hyn yn dangos bod ein hystod rhaglenni eisoes yn dechrau gwneud gwahaniaeth. Er mwyn gwella seilwaith chwaraeon Ogwr, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi darparu dros £1.4 miliwn mewn cynlluniau cyfalaf a gwelliannau er 2003. Mae hyn yn cynnwys £0.75 miliwn i bwll Ynysawdre, £216,000 i uwchraddio'r cyfleusterau ar gaeau chwarae North Site yn y Betws, £142,000 i ganolfan gymunedol Brynna a £100,000 dan y gronfa gyfalaf ffyrdd gweithgar o fyw.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o bobl sy'n manteisio ar nofio am ddim yn Ne Clwyd? (WAQ49877)

**Alun Pugh:** Er mis Ebrill 2003, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi buddsoddi bron i £15 miliwn yn y cynllun nofio am ddim, sy'n parhau i gael effaith gadarnhaol ar lefelau nofio yn Ne Clwyd ac ar draws Cymru.

Bydd effaith lawn nofio am ddim yn hysbys ym mis Gorffennaf 2007, ond gwyddom, ar gyfartaledd, bod cynnydd o 30,000 yn y nifer o sesiynau nofio iau yn ystod gwyliau'r haf a bod yr awdurdodau lleol yn darparu dros 40,000 o sesiynau nofio am ddim 60+ bob mis.

Mae £1.4 miliwn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi trwy ein cronfa gwella nofio am ddim 'Dringo'n Uwch' yn ardaloedd yr holl awdurdodau lleol ar draws Cymru. Nod y gronfa yw ychwanegu gwerth at y cynllun nofio am ddim llwyddiannus presennol a chynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu a thyfu eu cynlluniau lleol i ddenu rhagor o gyfranogwyr a chadw defnyddwyr presennol.

Yn Wrecsam, mae 11 o brosiectau yn cael cymorth gyda thros £90,000 o gyllid i gyd ac mae Sir Ddinbych hefyd yn elw o naw prosiect gyda chyfanswm cyllid o fwy na £45,000.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi sylw i'r materion a amlinellwyd gan arolwg Barclays ar chwaraeon ymysg pobl ifanc? (WAQ49878)

**Alun Pugh:** Mae'r materion a nodwyd yn adroddiad Barclays ar chwaraeon ymysg pobl ifanc yn gyson yn gyffredinol a'r materion sy'n cael eu nodi drwy arolygon cyfranogi Cyngor Chwaraeon Cymru, yr ydym yn rhoi sylw iddynt drwy ein strategaeth 'Dringo'n Uwch' a'r cynnydd mewn buddsoddiad sy'n ei chynnal.

Y flwyddyn nesaf, byddwn yn buddsoddi dros £25 miliwn mewn rhaglenni fel 5x60 a chynlluniau fel nofio am ddim i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corffol gan bobl ifanc. Mae nofio am ddim yn darparu gweithgareddau seiliedig ar ddŵr am ddim i blant a phobl ifanc 16 oed ac iau, tra mae ein rhaglen newydd 5x60 yn targedu pobl ifanc yn eu harddegau yn benodol ac yn rhoi iddynt raglen o weithgareddau allgyrsiol y maent hwy eu hunain wedi eu dewis. Mae'r ddau gynllun hyn, ynghyd â'r llu o gynlluniau eraill sy'n cael eu rhoi ar waith ar draws Cymru gan ein partneriaid allweddol yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, yn darparu mwy o gyfleoedd nag erioed o'r blaen i bobl ifanc yng Nghymru i fwynhau chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r cynlluniau i gynnal cynhadledd 'Amffitheatrau a Sbloets Ysblennydd Rhufeinig' yng Nghymru? (WAQ49880)

**Alun Pugh:** Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw gynlluniau i gynnal cynhadledd o'r fath yng Nghymru.

Mae Cadw, isadran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth y Cynulliad, yn trefnu bob mis Gorffennaf, ar y cyd ag Amgueddfa Cymru-National Museum Wales, ddigwyddiad milwrol Rhufeinig ysblennydd dros ddeuddydd yn amffitheatr Caerllion, lle gall ymwelwyr brofi adloniant y gladiatoriaid a dysgu mwy am fywyd yng nghaer Isca.

Mae Cadw hefyd wedi ymgymryd â rhaglen helaeth o waith dehongli a chyflwyno yn nhref Rufeinig Caer-went—Venta Silurum. Erbyn hyn ceir yn yr heneb y dechnoleg ddehongli hygyrch ddiweddaraf: darpariaeth sain sy'n galluogi ymwelwyr i ddarganfod mwy nag y gall y panelau gwybodaeth ysgrifenedig, darluniau ac arweinlyfr ei gynnig.

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo hyfforddiant lleol ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau yng Nghymru? (WAQ49881)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi buddsoddi £3.9 miliwn yn y cynllun hyfforddi i Gymru i godi proffil hyfforddi ac i ddarparu rhagor o hyfforddwyr ac arweinwyr, a'r rheini'n well hyfforddwyr ac arweinwyr, ar draws Cymru.

Yr ydym yn buddsoddi dros £5 miliwn ar bob lefel hyfforddi i hybu'r llwybrau cyfranogi a pherfformiad. Ar hyn o bryd mae dros £16,000 o gyfleoedd hyfforddi i hyfforddwyr ac arweinwyr yn cael eu darparu bob blwyddyn, ac mae'r mwyafrif ohonynt ar gyfer gwirfoddolwyr yn y gymuned.

Mae'r cynllun hyfforddi yn mowldio seilwaith cymunedol o hyfforddwyr ac arweinwyr i ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Yr ydym hefyd yn gweithio'n agosach nag erioed o'r blaen gyda'n cyrff llywodraethu cenedlaethol i sicrhau bod gan ein hyfforddwyr yr hyfforddiant a'r cymorth priodol fel eu bod yn gallu cyfrannu cymaint â phosibl tuag at sicrhau mwy o lwyddiant inni ar lwyfan y byd.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei drafodaethau diweddar gyda Chymdeithas Bêl droed Cymru? (WAQ49882) [W]

**Alun Pugh:** Cefais gyfarfod buddiol iawn yn ddiweddar gydag uwch-gynrychiolwyr Cymdeithas Bêl-droed Cymru.  Cefais gadarnhad ganddynt y byddant yn paratoi dogfen bolisi strategol a fydd yn amlygu eu gwaith presennol a hefyd yn rhoi cyfeiriad i ddatblygu pêl-droed yng Nghymru.

Mae paratoi'r strategaeth hon yn gam positif ymlaen ac rwy'n galonnog ynghylch dyfodol pêl-droed yng Nghymru ac yn edrych ymlaen at weithio mwy mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei bolisïau i hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol Cymru? (WAQ49883)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi symiau sylweddol i gryfhau a hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol Cymru, a hynny gartref a thramor. Er enghraifft:

- caiff amgylchedd hanesyddol cyfoethog ac amrywiol Cymru ei ddathlu drwy Cadw, sy'n hyrwyddo safleoedd sydd yng ngofal Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy brint, cyhoeddiadau a phresenoldeb cryf ar y we. Mae gwaith dehongli ar safleoedd a rhaglen fywiog o ddigwyddiadau yn ceisio dod â'n treftadaeth ddiwylliannol yn fyw. I ddathlu ein diwrnod cenedlaethol, yr wyf wedi tynnu'r tâl mynediad oddi ar nifer o safleoedd sy'n cael eu rheoli gan Cadw ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni a'r llynedd.

- sefydlasom CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd fel isadran bolisi newydd yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 1 Ebrill 2004 gyda chyllideb rhaglenni o £2 filiwn y flwyddyn. Mae CyMAL yn darparu cyngor dwyieithog a chymorth ariannol ynghylch materion datblygu i amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd lleol, sy'n cynnwys cadw a hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol Cymru.
- mae Amgueddfa Cymru—National Museum Wales yn chwarae rhan allweddol yn hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol Cymru. Yn dilyn gwaith ailddatblygu helaeth dros y blynyddoedd diwethaf yn yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn Llanberis, yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol yn Dre-fach Felindre yn Sir Gaerfyrddin ac yn y Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru ym Mlaenafon, daeth strategaeth ddiwylliannol £40 miliwn yr amgueddfa genedlaethol i ben gydag agoriad Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe yn 2005. Mae'r safle hwn yn dweud hanes diwydiant ac arloesi yng Nghymru a'u rôl yn llywio ein heconomi a'n cymdeithas o'r chwyldro diwydiannol i'r presennol. Ymwelodd dros 240,000 o ymwelwyr â'r amgueddfa yn ei blwyddyn gyntaf.

Mae ein hunaniaeth ddiwylliannol yn cael ei phortreadu hefyd yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru lle bydd cynllun mawr i ailddatblygu oriel, Oriel 1, yn cael ei ddadorchuddio yn ddiweddarach y mis hwn. Perthyn yw thema'r arddangosfa gyntaf yn Oriel 1 a bydd ymwelwyr yn darganfod y gall rhywun berthyn i wlad fel Cymru mewn llawer o ffyrdd. Mae hon yn argoeli i fod yn arddangosfa a fydd yn herio stereoteipiau ac yn annog pobl i barchu diwylliannau, credoau ac arferion pobl eraill, gan sicrhau ar yr un pryd fod gan bawb ei le yng Nghymru.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn darparu adnodd amhrisiadwy er mwyn darganfod yr hunaniaeth Gymreig. Drwy ledaenu a dehongli ei chasgliadau, mae'r llyfrgell yn cyfrannu'n sylweddol at yr ymwybyddiaeth waelodol o hunaniaeth ddiwylliannol Cymru ac yn ei hyrwyddo.

Ym mis Hydref 2007, bydd partneriaeth y llyfrgell gyda Chanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, yn cynnal gŵyl ffilmiau a fydd yn portreadu hunaniaeth ddiwylliannol Cymru fel y'i hamlygir mewn ffilmiau o gyfnod y ffilmiau 'clasurol'. Bydd yr ŵyl yn dod ag amrywiaeth eang o ffilmiau sy'n berthnasol i Gymru a'r Cymry ynghyd.

Mae arddangosfa'r llyfrgell 'Clic: Delweddu Cymru/Visualising Wales' yn cael ei dangos yn llyfrgelloedd cenedlaethol Latfia ac Estonia rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2007. Mae'r prosiect yn cynnwys arddangosfa o ffotograffau o Gymru a phobl Cymru, ac ychwanegir at hynny ddetholiad o ffilmiau byr sy'n crynhoi agweddau o ddiwylliant Cymru.

Mae Canolfan Mileniwm Cymru wedi bod yn allweddol er mwyn codi ein proffil diwylliannol. Mae llwyddiant y ganolfan wedi rhagori ar bob disgwyliad ac mae'n cael ei chydnabod yn briodol am ei statws eiconig, sydd wedi rhoi Cymru'n gadarn ar y map diwylliannol rhyngwladol.

Mae presenoldeb Cymru yn biennale celfyddyd Fenis wedi creu diddordeb mewn celfyddyd gyfoes o Gymru ar lefel prynu celfyddyd ryngwladol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi ystod eang o ddigwyddiadau diwylliannol sy'n arddangos Cymru i'r byd. Mae'r rhain yn cynnwys Artes Mundi, Jazz Aberhonddu, gŵyl y Gelli, gŵyl Bryn Terfel yn y Faenol a Beyond the Border.

Mae polisi Llywodraeth y Cynulliad ar y Gymraeg wedi'i nodi yn 'Iaith Pawb', ein cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog. Wrth roi'r cynllun gweithredu hwn ar waith, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi £40 miliwn ychwanegol yn y Gymraeg er 2003. Byddwn yn gwerthuso 'Iaith Pawb' yn 2007.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adroddiad gweithgor Cymru'n Creu am oriel anfarwolion ym myd chwaraeon Cymru? (WAQ49884)

**Alun Pugh:** Er mai cenedl fach yw Cymru, ni fu prinder unigolion sydd wedi cael llwyddiant ym myd chwaraeon ar lwyfan y byd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi nifer o arddangosfeydd i ddathlu eu llwyddiant, a'r un ddiweddaraf oedd yr arddangosfa am John Charles. Drwy Amgueddfa Cymru—National Museum Wales, mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cartref i oriel anfarwolion Cymru ym myd chwaraeon yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru. Er i weithgor Cymru'n Creu gyflwyno syniadau ym mis Mai 2002 am gartref mwy i'r casgliad, nid oes neb erioed wedi cyflwyno achos busnes na chynllun i droi'r syniadau hynny'n realiti. Fodd bynnag, byddai gennym ddiddordeb i ystyried cynllun o'r fath.

**Elin Jones:** Pa ran chwaraeodd y Gweinidog yng ngweithdrefn penodi aelod 'Cymru' newydd bwrdd Ofcom? (WAQ49885)

**Alun Pugh:** Nid yw aelodaeth bwrdd Ofcom yn cynnwys aelod sydd â rôl benodol i gynrychioli buddiannau Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47895) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Leanne Wood:** Faint y mae'r Prif Weinidog wedi'i wario ar ffioedd ymgynghorwyr ym mhob blwyddyn rhwng 2002-03 a 2005-06? (WAQ48519) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at WAQ47898 a WAQ48518.

**Glyn Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau a yw ei Adran yn defnyddio golau traffig mewnol neu system o godau lliw mewn perthynas â Chwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad ac a yw'r Adran yn graddio neu ddosbarthu Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad yn ôl eu sensitifrwydd gwleidyddol? (WAQ48752) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ48749.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Gweinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48759) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ48761.

**Alun Cairns:** Pa ystyriaeth mae'r gweinidog wedi'i rhoi i geisio'r pwerau i lywodraethu hyfforddwyr gyrru yng nghyswllt rheoleiddio prisiau a sicrhau eu bod wedi cael eu harchwilio gan y SCT? (WAQ49725)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Nid oes gennyf gynlluniau i geisio pwerau i lunio mesurau i lywodraethu hyfforddwyr gyrru. Cyhoeddodd yr Asiantaeth Safonau Gyrru yn ddiweddar y bydd angen i unrhyw un sy'n gwneud cais am ddod yn hyfforddwr, o 12 Mawrth 2007, gael datgeliad o gofnod troseddol ac y bydd y rhai sydd eisoes ar gofrestr hyfforddwyr gyrru cymeradwy'r Asiantaeth Safonau Gyrru yn cael archwiliad dros y ddwy flynedd nesaf.

**Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu prif lwyddiannau Llywodraeth y Cynulliad yn y portffolio Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yn etholaeth Ogwr er 2003? (WAQ49731)

**Andrew Davies:** Mae fy adran yn dal i gefnogi datblygiad economi wybodaeth sy'n ychwanegu gwerth sylweddol, wedi'i seilio ar weithlu medrus ac arloesol, sylfaen technoleg a gwybodaeth ddatblygedig a seilwaith, naturiol a ffisegol, o ansawdd uchel. Yn etholaeth Ogwr, ac yn wir yn ardal ehangach awdurdod unedol Pen-y-bont ar Ogwr, mae gennym rai enghreifftiau penodol da iawn lle mae cymorth fy adran i wedi bod yn dyngedfennol er mwyn dod â chyflogaeth a chyfleoedd newydd i'r ardal.

Er enghraifft, cafodd y buddsoddiad gwerth £9 miliwn mewn gwaith newydd ym Maesteg a gyhoeddwyd gan Creative Outsourcing Solutions International Ltd yn ddiweddar ei gefnogi gan fy adran drwy grant cymorth rhanbarthol dewisol o £4 miliwn. Mae'r gefnogaeth hon yn helpu i greu a diogelu dros 900 o swyddi o ansawdd dda ac mae'n hwb gwirioneddol i'r ardal. Dewisodd cwmnïau fel COSI ddod i Gymru ac, yn yr achos hwn, i etholaeth Ogwr oherwydd yr amgylchedd cefnogol yr ydym yn ei ddarparu, sgiliau'r gweithlu a'i allu i ymaddasu, ac ansawdd yr amgylchedd lleol.

Nid yw cymorth o'r fath yn unigryw. O ran mewnfuddsoddi, ers datganoli mae awdurdod unedol Pen-y-bont ar Ogwr wedi denu rhyw 47 o brosiectau mewnfuddsoddi sydd wedi helpu i greu a diogelu dros 8,600 o swyddi. Yn y cyfnod hwnnw o amser, yr ydym hefyd wedi defnyddio RSA i gefnogi rhyw 90 o brosiectau gwerth dros £113 miliwn. Mae'r prosiectau hyn wedi credu a diogelu dros 9,200 o swyddi. Ers iddo gael ei lansio yn 2002, mae grant buddsoddi'r Cynulliad wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi rhyw 103 o brosiectau yn awdurdod unedol Pen-y-bont ar Ogwr, gwerth dros £3.4 miliwn, gan greu a diogelu dros 1,100 o swyddi.

Oherwydd cefnogaeth fel hyn yr ydym wedi gweld y gostyngiadau dramatig yn y niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra yn ardal awdurdod unedol Pen-y-bont ar Ogwr sydd, yn wir, wedi cael eu hadlewyrchu ar draws Cymru. Mae diweithdra ymysg y rhai sy'n hawlio budd-daliadau yn 2.5 y cant yn awdurdod unedol Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd; mae hyn yn unol â chyfartaledd Cymru o 2.5 y cant ac mae'n sylweddol is na'r ffigur o 4.4 y cant cyn datganoli.

**Janice Gregory:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn etholaeth Ogwr? (WAQ49733)

**Andrew Davies:** Ar hyn o bryd mae prosiect gwerth £1.2 miliwn i ymestyn saith platfform yn y gorsafoedd ar y rheilffordd o Faesteg i Gaerdydd a Chil-y-coed, sydd i fod i gael ei gwblhau yng ngwanwyn 2008. Bydd hyn yn golygu y bydd modd rhedeg trenau hirach yn y dyfodol, gan ddarparu mwy o seddau ar y gwasanaethau prysuraf. Mae'r cynllun yn cael ei gyllido gan Lywodraeth y Cynulliad gyda chymorth ariannol gan yr Undeb Ewropeaidd. Dechreuodd gwaith ar 5 Mawrth ar gynllun £4.3 miliwn, y mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ei gyllido, i ailgyflwyno trenau teithwyr i Lanharan ar ôl bwlch o dros 40 mlynedd.

Yn fwy cyffredinol, cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyllid refeniw tuag at wasanaethau bws lleol drwy ei asesiad o wariant safonol. Hefyd, yr wyf wedi dyfarnu £393,488 yn 2006-07 ar gyfer grant gwasanaethau trafnidiaeth lleol i helpu i ddarparu gwasanaethau bws sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol. Mater i'r cyngor yw penderfynu sut y bydd yn defnyddio'r cyllid hwn i ddiwallu blaenoriaethau lleol.

**Nick Bourne:** Faint o arian cyhoeddus y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i ymrwymo i'r cyswllt awyr arfaethedig rhwng maes awyr yr Awyrlu Brenhinol yn y Fali a Chaerdydd? (WAQ49847)

**Andrew Davies:** Talwyd cost gyfalaf y derfynfa teithwyr yn Ynys Môn drwy gyllid grant trafnidiaeth o £1.5 miliwn i Gyngor Sir Ynys Môn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyrannu cymorth refeniw o £1.2 miliwn yn 2007-08 a chyllideb ddangosol o £1.2 miliwn yn 2008-09 ac £1 miliwn yn 2009-10.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyswllt awyr arfaethedig rhwng maes awyr yr Awyrlu Brenhinol yn y Fali a Chaerdydd? (WAQ49848)

**Andrew Davies:** Mae gan feysydd awyr a gwasanaethau awyr rôl hollbwysig i'w chwarae mewn system drafnidiaeth integredig a chynaliadwy ac yr wyf yn awyddus i fanteisio'n llawn ar eu potensial. Mae'r gwasanaeth awyr newydd hwn yn bwysig i ddatblygiad economaidd y Gogledd-orllewin ac i amcan Llywodraeth y Cynulliad o ddod â'r Gogledd a'r De yn nes at ei gilydd.

Bydd y gwasanaeth yn gwella cysylltiadau busnes a chyfleoedd twristiaeth ac yn sicrhau arbedion amser sylweddol wrth deithio rhwng y Gogledd a'r De. Bydd yn golygu bod posibl cael tocyn dychwelyd diwrnod o Gaerdydd neu o Ynys Môn. Bydd dau wasanaeth dwyffordd y dydd yn hedfan ar ddiwrnodau gwaith. Bydd Highland Airways yn defnyddio awyren Jetstream 31 ar gyfer y gwasanaeth. Y pris uchaf am docyn unffordd fydd £50. Ni chodir treth teithwyr awyr.

Cyngor Sir Ynys Môn sy'n gyfrifol am reoli'r derfynfa teithwyr newydd ar Ynys Môn, a elwir ym Maes Awyr Môn/Anglesey Airport. Mae'r cyngor wedi penodi Operon fel gweithredwr y derfynfa.

Yr wyf wrth fy modd y gallwn edrych ymlaen yn awr at y gwasanaeth awyr newydd hwn rhwng Caerdydd ac Ynys Môn.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyfran y pŵer a ddaw o ffynonellau ynni adnewyddadwy yng Nghymru? (WAQ49849)

**Andrew Davies**: Dengys yr ystadegau diweddar fod 1.23 TWh o drydan wedi cael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy yng Nghymru yn 2005, sy'n cynnwys gwynt ar y tir ac ar y môr, biomas a phŵer dŵr. Yr oedd hyn yn cynrychioli 3.5 y cant o gyfanswm y trydan a gynhyrchwyd. Targedau Llywodraeth y Cynulliad o ran trydan o ffynonellau adnewyddadwy yw 4 TWh y flwyddyn erbyn 2010 a 7 TWH y flwyddyn erbyn 2020.

**John Marek:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sicrhau bod pob gweithiwr ym maes adeiladu sy'n gweithio ar brosiectau mawr yng Nghymru wedi cael ei hyfforddi ac yn meddu ar y pasbortau diogelwch perthnasol cyn cael gweithio? (WAQ49855)

**Andrew Davies:** Yr ydym yn ddiweddar wedi cyhoeddi fframwaith strategol i'r sector adeiladu, 'Building Companies: Building Skills', sydd ag amryw o gynigion i gynyddu sgiliau yn y sector. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn bydd fforwm newydd yn cael ei sefydlu ar gyfer yr amgylchedd adeiledig, a rhan o'i gyfrifoldeb fydd datblygu a goruchwylio trefn i roi cynllun gweithredu ar waith.

Hefyd, bydd cangen Gwerth Cymru o Lywodraeth y Cynulliad yn helpu i hyrwyddo defnyddio gweithwyr sydd wedi cael hyfforddiant ar bob prosiect yn y diwydiant adeiladu o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Gwneir hyn drwy werthuso gallu technegol fel rhan o brosesau tendro. Bydd asesiadau gallu technegol yn ystyried ac yn gwerthuso potensial y cwmni tendro i ddarparu canlyniadau

gofynnol y prosiect yn foddhaol ac, wrth wneud hynny, byddant yn ystyried personél sydd â phrofiad a hyfforddiant digonol, yn cynnwys agweddau priodol o iechyd a diogelwch.

Mae iechyd a diogelwch yn fater o ddeddfwriaeth ac mae llawer i gymeradwyo hyfforddiant iechyd a diogelwch da gan gyflogwyr i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion angenrheidiol y Deddfau. Fodd bynnag, dylid nodi mai cynllun gwirfoddol yw'r cynllun pasbortau safle ac, er bod llawer o gwmnïau wedi'i fabwysiadu efallai, nid yw'n ofyniad statudol ac ni allwn ei hyrwyddo ond fel ymarfer da.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47894) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Leanne Wood:** Faint y mae'r Prif Weinidog wedi'i wario ar ffioedd ymgynghorwyr ym mhob blwyddyn rhwng 2002-03 a 2005-06? (WAQ48522) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at WAQ47898 a WAQ48518.

**Glyn Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau a yw ei Adran yn defnyddio golau traffig mewnol neu system o godau lliw mewn perthynas â Chwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad ac a yw'r Adran yn graddio neu ddosbarthu Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad yn ôl eu sensitifrwydd gwleidyddol? (WAQ48751) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ48749.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Gweinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48758) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48761.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dosbarthiadau Cymraeg sydd ar gael i oedolion yn y Canolbarth a'r Gorllewin? (WAQ48469)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Mae Cymraeg i oedolion yn un o'r rhaglenni dysgu oedolion mwyaf yng Nghymru. Mae amrywiaeth eang o gyrsiau ar gael, o ddosbarthiadau nos wythnosol i gyrsiau mwy dwys a chyrsiau yn y gweithle. Yn 2006-07, bydd £2.7 miliwn yn fras yn cael ei wario ar ddatblygu Cymraeg i oedolion, yn cynnwys sefydlu seilwaith cenedlaethol, a bydd £5.6 miliwn yn cael ei ddyrannu mewn cyllid craidd i 31 o ddarparwyr i gyflenwi amryw o gyrsiau.

Mae fy swyddogion wedi cysylltu â'r canolfannau iaith Cymraeg i oedolion sydd newydd gael eu sefydlu er mwyn cael gwybodaeth sy'n berthnasol i etholaeth ranbarthol y Canolbarth a'r Gorllewin ac mae rhestr o'r cyrsiau a gynigiwyd yn ystod 2006-07 wedi cael ei chyhoeddi fel atodiad (Atodiad A).

**Janet Ryder:** Pa gymorth sydd ar gael i fyfyrwyr addysg uwch o Gymru a) sydd wedi dechrau eu cyrsiau ym mis Medi 2006, a b) a fydd yn dechrau'r flwyddyn nesaf, mewn pynciau nad ydynt ar gael ym mhrifysgolion Cymru? (WAQ48494)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Jane Davidson:** Mae gan fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sy'n astudio'r tu allan i Gymru o flwyddyn academaidd 2006-07 hawl i'r ystod lawn o gymorth myfyrwyr sydd ar gael: benthyciad myfyriwr o £4,405 (£6,170 yn Llundain), benthyciad ffioedd dysgu o £3,000 a grant dysgu'r Cynulliad o hyd at £2,700, gydag unrhyw ddyfarniad yn cael ei seilio ar asesiad incwm. Hefyd, mae myfyrwyr yn gymwys i ymgeisio am bob cymhorthdal incwm, er enghraifft, lwfansau myfyrwyr anabl.

O flwyddyn academaidd 2007-08, ni fydd y pecyn cymorth myfyrwyr i fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ond yn astudio'r tu allan i Gymru yn newid. Fodd bynnag, bydd uchafsymiau'r hawliau yn codi: benthyciad myfyriwr o £4,510 (£6,320 yn Llundain), grant dysgu'r Cynulliad o hyd at £2,765 a benthyciad ffioedd dysgu o hyd at £3,070.

**Elin Jones:** A wnaiff y gweinidog ddatganiad am y cynnydd sydd wedi'i wneud gan y grŵp cyfeirio ar ddyslecsia i asesu'r ddarpariaeth ar gyfer dyslecsia yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru? (WAQ48500)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Jane Davidson:** Ers i grŵp cyfeirio allanol dan arweiniad y Cynulliad ar anawsterau dysgu penodol (sy'n cynnwys dyslecsia) gael ei sefydlu ym mis Mawrth 2006, mae holiadur wedi cael ei anfon at bob awdurdod addysg lleol yn gofyn am wybodaeth am eu darpariaeth i blant a phobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu penodol. Mae'r holiaduron wedi cael eu dychwelyd ac maent yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd.

Yng ngoleuni'r rhain ac yn ystod 2007, yr ydym yn bwriadu datblygu safonau ansawdd mewn addysg i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau dysgu penodol.

Yn fwy cyffredinol, y llynedd cynorthwyasom Gymdeithas Dyslecsia Prydain - Cymru gyda chyllid (£25,000) i argraffu a dosbarthu'r pecyn adnoddau 'Achieving Dyslexia Friendly Schools in Wales'. Cynhyrchwyd y pecyn gan BDA Cymru ac mae'n rhoi cyngor i ysgolion ar ffyrdd o ddiwallu anghenion disgyblion sydd â dyslecsia drwy gael gwared â rhwystrau posibl rhag dysgu. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd canfod anghenion plant a phobl ifanc mor gynnar â phosibl a darparu'r cymorth iawn, wedi'i anelu at anghenion unigol. Cafodd y pecynnau hyn eu dosbarthu i ysgolion yn ystod tymor yr haf 2005.

Mae BDA hefyd wedi llwyddo i gael £1.17 miliwn o gyllid Amcan 1 i gyllido Project Llwyddiant. Menter ar y cyd yw'r prosiect hwn rhwng BDA, y Dyscovery Trust a phartneriaid eraill. Mae'n helpu cannoedd o bobl ifanc yn eu harddegau ar draws Cymru drwy gefnogi ac ychwanegu at y systemau addysg a hyfforddiant presennol.

**Peter Black:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gwyddoniaeth ym Mhrifysgolion Cymru? (WAQ49851)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn cydnabod pwysigrwydd sefydliadau addysg uwch Cymru ym maes gwyddoniaeth. Yr wyf yn cefnogi llawer o gynigion cydweithredol gyda chyllid 'Ymgeisio yn Uwch' mewn meysydd pwysig fel Athrofa Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiannu Cymru, rhesymoli cemeg a Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru, i sicrhau bod y pynciau hyn yn cael eu diogelu a'u cryfhau.

Mae arian ymchwil o ryw £64 miliwn yn cael ei ddarparu gan CCAUC yn 2006-07 i'r sector addysg uwch yng Nghymru. Mae cyfran sylweddol o hwn yn cael ei gyfeirio at ymchwil gwyddonol. Mae sawl enghraifft o ymchwil o ragoriaeth ryngwladol megis ym meysydd seicoleg, peirianneg sifil, ffiseg a mathemateg.

Dangosodd ymchwil CCAUC ar bynciau sydd o bwys ehangach i Gymru fod y cofrestriadau ar gyrsiau gwyddoniaeth yn sefydliadau AU Cymru er 2004-05 wedi cynyddu 6.7 y cant. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa yng Nghymru o ran pynciau sydd o bwys ehangach. Bydd CCAUC yn gweithio gyda'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch yn Lloegr i sicrhau bod pynciau sydd o bwys mawr i economi a bywyd Cymru yn parhau i gael eu hadolygu.

**Trish Law:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddyrannu cyllidebau ysgolion yn uniongyrchol i ysgolion, yn hytrach na thrwy awdurdodau addysg lleol? (WAQ49582)

**Jane Davidson:** Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad unrhyw gynlluniau i ddyrannu cyllidebau ysgolion yn uniongyrchol i ysgolion. Bydd cyllid i ysgolion yn parhau i gael ei ddarparu yn bennaf drwy'r setliad refeniw i lywodraeth leol, a'r awdurdodau lleol fydd yn penderfynu ar y lefelau cyllid i ysgolion yng ngoleuni anghenion ac amgylchiadau lleol. Mae'r awdurdodau'n atebol i'w hetholwyr am y penderfyniadau a wnânt.

**Janet Ryder:** Pa gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer myfyriwr doethuriaeth seicoleg addysgol o Gymru sy'n astudio ym Mryste ac sydd â lleoliad blwyddyn gyntaf gyda Chyngor Sir Penfro? (WAQ49886)

**Jane Davidson:** Nid oes gwahaniaeth yn y trefniadau cyllido i fyfyrwyr ôl-radd o Gymru pa un a ydynt yn astudio yng Nghymru neu yn rhywle arall yn y DU. Er y bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr ôl-radd wedi cael rhywfaint o gymorth o leiaf fel mater o hawl yn ystod eu hastudiaethau gradd, mae cymorth a gyllidir yn uniongyrchol gan y Llywodraeth ar lefel ôl-radd yn ddetholus. Cyfrifoldeb bwrdd y celfyddydau a'r dyniaethau a'r chwe chyngor ymchwil yw dyfarniadau i fyfyrwyr ôl-radd, yn dibynnu ar y maes astudio. Mae llawer o fyfyrwyr nad ydynt yn cael dyfarniad yn ceisio cyllid o ffynonellau amrywiol, yn cynnwys benthyciadau datblygu gyrfa, benthyciadau gan fanciau, nawdd gan ymddiriedolaethau addysgol ac elusennau neu ddyfarniadau dewisol gan eu hawdurdod lleol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod fodd bynnag y gallai fod rhai amgylchiadau lle gallai fod angen help pellach. Mae cymorth ariannol wedi cael ei ddarparu drwy gronfeydd ariannol wrth gefn. Mae'r cronfeydd hyn yn darparu cymorth ariannol ychwanegol drwy'r brifysgol i fyfyrwyr sydd ag anghenion arbennig. Mae trefniadau tebyg ar waith yn Lloegr drwy gronfeydd mynediad at ddysgu.

**Janet Ryder:** Pam bod rhai ysgolion sy'n cynnig cynllun brecwast am ddim Llywodraeth Cynulliad Cymru yn codi £1 y diwrnod ar rieni? (WAQ49887)

**Jane Davidson:** Ni ddylai unrhyw ysgol sy'n cymryd rhan yn y cynllun brecwast am ddim godi tâl ar ddisgyblion am ddod i sesiynau brecwast penodol. Mae cyllid ar gael oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i dalu cost y brecwast a'r goruchwylwyr, cyhyd â bo'r ysgol yn darparu'r sesiwn brecwast yn unol â'r canllawiau ar redeg y cynllun hwn.

Fodd bynnag, mae'n bosibl i'r sesiynau brecwast am ddim a chlybiau gofal plant weithio gyda'i gilydd. Er enghraifft, gallai ysgol ddarparu gofal plant rhwng 7.30 a.m. a 8.30 a.m., yna cynnal y sesiwn brecwast am ddim am 8.30 a.m..

Mae gan ysgolion beth hyblygrwydd o ran union amseriad eu sesiynau brecwast am ddim. At ddiben y cynllun, dylai'r sesiwn brecwast ddechrau cyn dechrau'r diwrnod ysgol. Awgrymir y dylai'r ddarpariaeth brecwast gael ei chynnig fel arfer fel cyfnod byr (er enghraifft 30 munud) ac mai'r prif bwrpas yw darparu digon o amser i alluogi'r plant hynny sy'n dod i'r sesiwn i gael brecwast iach cyn i weithgareddau arferol yr ysgol ddechrau.

Cyn belled nad yw'r cyfnod i roi'r cynllun hwn ar waith yn cael ei ymestyn er mwyn creu diben arall ar ffurf gofal plant, ni fyddai'n rhaid cofrestru gydag Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Gallai fod yn bosibl cynnal clwb gofal plant â chymhareb isel, wedi'i seilio ar chwarae, lle codir ffi, cyn y gwasanaeth brecwast am ddim. O dan yr amgylchiadau hynny, efallai y byddai rhaid cofrestru pe bai'r ddarpariaeth, o'i hystyried ar y cyd â chlwb gofal plant ar ôl yr ysgol o dan yr un rheolwyr, yn golygu bod mwy na dwy awr o ofal y dydd yn cael ei ddarparu.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47896) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Leanne Wood:** Faint y mae'r Prif Weinidog wedi'i wario ar ffioedd ymgynghorwyr ym mhob blwyddyn rhwng 2002-03 a 2005-06? (WAQ48524) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at WAQ47898 a WAQ48518.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y broses dendro ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt ar dir y Comisiwn Coedwigaeth? (WAQ48371)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Yn sgil cyhoeddi strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy yng Nghymru (Nodyn Cyngor Technegol 8 (TAN8)), mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn rheoli rhaglen gaffael ar ran Llywodraeth y Cynulliad i ddethol cwmnïau addas i gael eu gwahodd i ddatblygu ffermydd gwynt ar dir y mae'n ei reoli yn yr Ardaloedd Chwilio Strategol a nodwyd yn TAN8.

Gwahoddwyd ceisiadau i gael eu hystyried dan y rhaglen hon yn gynharach eleni fel rhan o'r ymarferiad cyn-cymhwyso a gynlluniwyd i ganfod datblygwyr oedd â'r profiad a'r gallu priodol ym maes codi ffermydd gwynt a chafwyd ymateb rhagorol gan ystod eang o gwmnïau.

Yn dilyn proses ddethol drylwyr, agored a thryloyw, gwahoddwyd 10 cwmni i gyflwyno cynigion manwl er mwyn dyfarnu opsiwn i ddatblygu fferm wynt mewn un neu fwy o'r ardaloedd chwilio strategol, ar yr amod bod eu cynllun yn cael caniatâd drwy'r broses gynllunio arferol.

Mae'r cwmnïau a ddetholwyd wrthi ar hyn o bryd yn cynhyrchu tendrau manwl i'w cyflwyno ym mis Ionawr 2007 i sicrhau opsiwn i ddatblygu sydd i gael ei ddyfarnu'n ddiweddarach y flwyddyn nesaf.

Bydd y datblygwyr llwyddiannus mewn sefyllfa wedyn i gyflwyno cais cynllunio i'r awdurdod cynllunio lleol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi ar hyn o bryd yn ystyried sut y bydd yn defnyddio'r incwm a geir o unrhyw fferm wynt a ddatblygir ar dir sy'n cael ei reoli gan y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru.

**Glyn Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau a yw ei Adran yn defnyddio golau traffig mewnol neu system o godau lliw mewn perthynas â Chwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad ac a yw'r Adran yn graddio neu ddosbarthu Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad yn ôl eu sensitifrwydd gwleidyddol? (WAQ48753) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ48749.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Gweinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48760) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48761.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl alwadau ar ei amser yn rhinwedd ei swydd fel Gweinidog, yn ffurfiol neu'n anffurfiol, gan nodi pwrpas y galwadau hynny ac â phwy y cyfarfu a pham, ar 11eg, 12fed a 13eg Hydref 2006? (WAQ48593)

**Carwyn Jones:** Dangosir y wybodaeth yn y tabl canlynol:

| **Ymrwymiad** | **Pwrpas** | **Pobl y cyfarfuwyd â hwy** |
|---|---|---|
| Cyfarfod gyda Michael German AC | Trafod Rheol Sefydlog Rhif 31 | Michael German |
| Ymweliad tawel, heb gyhoeddusrwydd, â Chwarel yr Hafod ar y ffordd i'm hymrwymiadau fel Gweinidog | Gweld safle Chwarel yr Hafod | Neb |
| Cyfarfod cyhoeddus yn Llanrwst | Trafod a rhoi gwybodaeth ddiweddaru am brosiectau lliniaru llifogydd yn nyffryn Conwy | Denise Idris Jones AC ac aelodau o'r cyhoedd |
| Cyfarfod gyda Mr Ieuan Edwards | Cyfarfod diweddaru anffurfiol | Mr Ieuan Edwards, llysgennad y Gwir Flas a pherchennog y Traditional Welsh Sausage Company Ltd ac Edwards o Gonwy |
| Cyfarfod ynglŷn â safle lladd-dy Caernarfon | Trafod y potensial i ailagor safle hen ladd-dy Caernarfon | Cyfrinachol |
| Cyfweliadau | Cyfweliadau cyfrwng Cymraeg am y strategaeth leoli | Neb—rhoddwyd y cyfweliadau dros y ffôn |

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog wneud sylw am gynlluniau i ddatblygu cnydau biomas yng Nghymru? (WAQ49703)

**Carwyn Jones:** Yr ydym yn darparu grantiau dan y cynllun busnes ynni pren i annog sefydlu rhwydwaith o weithfeydd tanwydd coed ar raddfa fach i ganolig. Bydd yr adolygiad o gynlluniau rheoli tir yn edrych ar ddichonoldeb cyflwyno grantiau ar gyfer cnydau ynni.

**Ann Jones:** Pa bwerau sydd gan y Gweinidog i gyfyngu ar ddefnyddio maglau yng Nghymru? (WAQ49706)

**Carwyn Jones:** Dan Ddeddf Bywyd Gwyll a Chefn Gwlad 1981, mae'n drosedd gosod unrhyw drap neu fagl a fwriadwyd un ai i anafu neu ladd unrhyw anifail gwyllt sydd wedi'i gynnwys yn Atodlen 6 o'r Ddeddf. Ni chaniateir maglu rhywogaethau gwarchodedig oni bai fod y person wedi cael caniatâd drwy drwydded benodol dan adran 16 o'r Ddeddf.

**Ann Jones:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu cyllid ar gyfer amddiffyn rhag y môr a rhag llifogydd? (WAQ49707)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i ragflaenydd wedi cynyddu lefel y cyllid ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol dros y blynyddoedd diwethaf. Er 2002, mae'r cyllid i Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynyddu o fwy na 40 y cant i £27.6 miliwn ar gyfer 2007-08. Dros yr un cyfnod, mae'r cymorth grant i gynlluniau gwella awdurdodau lleol wedi bod yn cynyddu dros 50 y cant i £5.8 miliwn. Hyd yma, mae'r ddarpariaeth hon wedi mwy na chadw i fyny â'r rhaglenni sy'n cael eu cyflwyno gan yr awdurdodau gweithredu.

Cadarnhaodd strategaeth amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad yr angen i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd ac, yn arbennig, i symud tuag at ddull o ymdrin â materion llifogydd a materion arfordirol yng Nghymru ar sail rheoli risg. Fel rhan o gynllun gweithredu'r strategaeth mae prosiect yn cael ei gwmpasu a fydd yn egluro sut y byddwn yn rheoli perygl llifogydd a pherygl arfordirol yn y dyfodol a rhan o'r prosiect hwnnw fydd ystyried materion cyllido i'r dyfodol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi cyllid posibl ar gyfer gwaith o'r fath o'r rhaglen gydgyfeirio Ewropeaidd. Mae'r swyddogion yn cyd-drefnu cais strategol ar y cyd â'r awdurdodau gweithredu.

**Kirsty Williams:** A yw'r Gweinidog wedi ystyried gwneud rheoliadau dan Adran 31 Deddf Traffig y Ffordd 1988, i ganiatáu defnyddio llwybrau ceffylau o bryd i'w gilydd ar gyfer rasys beics? (WAQ49888)

**Carwyn Jones:** Nid oes hyrwyddwyr rasys beics wedi gofyn imi wneud rheoliadau i ganiatáu defnyddio llwybrau ceffyl. Byddwn yn barod i ystyried cais o'r fath dan yr amgylchiadau cywir.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47898)

**Leanne Wood:** Faint y mae'r Prif Weinidog wedi'i wario ar ffioedd ymgynghorwyr ym mhob blwyddyn rhwng 2002-03 a 2005-06? (WAQ48518)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Mae’r wybodaeth a gyflenwir wedi cael ei chasglu ynghyd gan wasanaethau corfforaethol y Cynulliad o gofnodion y Cynulliad a datganiadau a ddarparwyd gan y cyn gyrff cyhoeddus a gâi eu noddi gan y Cynulliad.

Mae’r wybodaeth yn cynnwys contractau ymgynghoriaeth reoli dros £25,000 mewn gwerth. Fel y gofynnwyd, mae tabl ar wahân wedi cael ei ddarparu am bortffolio pob Gweinidog, yn cwmpasu’r cyfnod o 1999 tan y presennol, a rhoddir dyddiad dyfarnu pob contract. Nid yw contractau sy’n dal ar hanner y broses dendro wedi cael eu cynnwys.

**Contractau Gwasanaethau Ymgynghori Trefnydd y Cynulliad 1999 hyd 2006**

| Rhif y Contract | Adran | Teitl y Contract | Is-adran | Gwerth y Contract (heb gyn TAW) | Cwmni Llwyddiannus | Dyddiad Dyfarnu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |

**Contractau Gwasanaethau Ymgynghori Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon 1999 hyd 2006**

| Rhif y Contract | Adran | Teitl y Contract | Is-adran | Gwerth y Contract (heb gyn TAW) | Cwmni Llwyddiannus | Dyddiad Dyfarnu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1320 | Cadw | Asesu gweithrediad castell y Waun | Cadw | 37,600 | PBL Consulting Ltd | 24/05/2006 |
| 267/2001 | Diwylliant, Chwaraeon a’r Gymraeg | Ymgynghori ynglŷn â gerddi botanegol | CSWLD | £50,000 | KPMG | 02/10/2002 |

**Contractau Gwasanaethau Ymgynghori Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau 1999 hyd 2006**

| Rhif y Contract | Adran | Teitl y Contract | Is-adran | Gwerth y Contract (heb gyn TAW) | Cwmni Llwyddiannus | Dyddiad Dyfarnu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 023/2003 | AHA | Adolygiad Gyrfa Cymru | TSCP2 | £66,300 | GCL Management Consultancy | 10/10/2003 |
| 185/2002 | AHA | Gwerthuso ‘Ymestyn Hawliau Pobl Ifanc yng Nghymru’ | YPT | £69,464.25 | Interactive feedback | 21/02/2003 |
| 117/2002 | AHA | Gwerthuso gweithwyr sy’n dysgu | AHA-TSCP2 | £81,175 | Newidiem | 09/12/2002 |
| 091/2000 | AHA | Rhaglen arweinyddiaeth i benaethiaid | Arwein Ysgol-ion | £154,940 | Hay Management | 14/03/2000 |

**Contractau Gwasanaethau Ymgynghori Menter, Arloesi a Rhwydweithiau / Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth 1999 hyd 2006**

| Rhif y Contract | Adran | Teitl y Contract | Is-adran | Gwerth y Contract (heb gynn TAW) | Cwmni Llwyddiannus | Dyddiad Dyfarnu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 156/2005 | ADETh | Gwerthuso busnes a | OCTO | 28,405 | Enviros | 01/03/2006 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | chynllun gweithredu | | | | |
| 77/2005 | ADETh | Gwerthuso'r cronfeydd strwythurol | WEFO | 100,900 | Old Bell 3 | 01/02/2006 |
| "02/2005 | ADETh | Adolygu cynlluniau cymorth busnes | EDT | £49,800 | Strategem | 14/07/2005 |
| | WDA | Rheoli risg | WDA | 111,625 | Proteus Programme management | 01/03/2005 |
| | WDA | Gwerthuso rhaglen LEADER+ | WDA | £49,100.00 | CRG, Old Bell, Dateb a Fitz Patrick Associates | 01/08/2005 |
| | WDA | Ymchwilio i botensial economaidd saethu gêm yng Nghymru | WDA | 46,864 | Athrofa Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth | 01/09/2005 |
| | WDA | Gwerthuso rhaglenni gwledig yng Nghymru – ar y cyd â LlCC | WDA | £84,776.00 | CRG Consulting | 01/10/2005 |
| | WDA | Rheoli risg—newid rhaglenni | WDA | £58,750 | Proteus Programme management | 01/03/2006 |
| 131/2004 | ADETh | Diweddariadau gwerthuso canol tymor o'r rhaglenni Amcan 1,2,3 yng Nghymru a chynllun cymunedol Interreg IIIA yng Nghymru/Iwerddon | PHPD (i) | £98,850.00 | Old Bell 3 | 26/01/2005 |
| 131/2004 | ADETh | | (ii) | £40,237.50 | EROS | 26/01/2005 |
| 131/2004 | ADETh | | (iii) | £97,025.00 | Old Bell 3 | 26/01/2005 |
| 131/2004 | ADETh | | (iv) | £44,000.00 | Old Bell 3 | 26/01/2005 |
| | WDA | Adolygiad Cyllid Cymru | WDA | £59,855 | Pricewaterhouse Coopers | 01/02/2004 |
| | WDA | Astudiaeth dichonoldeb —Canolfan | WDA | £29,081.00 | Rural Consultancy Com, Prifysgol Harper | 01/12/2004 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | y Canmlwyddiant (y Sioe Frenhinol) | | | Adams, Stubbs Rich Architects | |
| 253/2003 | ADETh | Contract yn ôl y gofyn am adolygiadau Gateway | BIMD | £26,320 | Chandler KBS | 15/04/2004 |
| | WDA | Gwerthusiad o’r fenter trefi marchnad | WDA | £120,140 | Sefydliad Tavistock | 01/01/2003 |
| | WDA | Adolygiad hunaniaeth o’r brand corfforaethol | WDA | £264,486 | Glazer Ltd | 01/06/2003 |
| | WDA | Mapio diwydiant coedwigaeth Cymru—ar y cyd â’r Comisiwn Coedwigaeth | WDA | 53,912 | Jaako Poyry consulting | 01/09/2003 |
| | WDA | Prosiect Technium CAST | WDA | 40,000 | Waypost Ltd | 01/12/2003 |
| 123/2002 | ADETh | Rhaglen ymwybyddiaeth a hyrwyddo Cymru ar Lein | Cymru ar lein | £1,179,678.00 | The Glasgow Group | 06/08/2003 |
| 150/2002 | ADETh | Gwerthusiad canol tymor | WEFO | £279,610 | EKOS | 06/02/2003 |
| 206/2002 | ADETh | Ymgynghorydd i ymgymryd ag astudiaeth am weithgareddau terfynell cludo nwyddau yn y De | WEFO | £40,795 | Steer Davies Gleave | 06/05/2003 |
| | WDA | Cynllun gweithredu o ran adfywio economaidd yng nghefn | WDA | 25,000 | Prifysgol Cymru Aberystwyth | 01/12/2002 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gwlad—cyllidwyd ar y cyd â'r awdurdodau lleol | | | | |
| 345/2001 | ADETh | Gwerthusiad canol tymor o raglen Amcan 1 | WEFO | £700,000.00 | CRG & CSES (Rhannwyd yn becynnau) | 19/09/2002 |
| 022/2001 | ADETh | Gwerthusiad o XL Plus | ECAD 4 | £42,412.50 | York Consulting | 05/04/2001 |
| | WDA | Datblygu strategaeth ynni i'r WDA | WDA | £39,000 | West Coast Energy | 01/01/2001 |
| | WDA | Ymchwilio i adfywio cymunedol | WDA | 29,457 | Prifysgol Morgannwg | 01/07/2001 |
| | WDA | Parhad Busnes | WDA | £41,125 | Adams Associates | 01/10/2001 |
| | WDA | Adolygu polisi'r WDA ar ddatblygu cynaliadwy | WDA | £221,000 | Ove Arup and Partners | 01/11/2001 |
| 154/2000 | ADETh | Rhag-werthusiadau LEADER III & Urban | WEFO, CPSDS | £35,097.25 | Ove Arup | 15/08/2000 |
| 070/99 | ADETh | Y Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru—rheolaeth rhaglen 1999 i 2002 | ITD | £72,409 | Canolfan Ansawdd Cymru | 28/02/2000 |
| | ADETh | Gwerthusiad o'r fenter trefi marchnad | WDA | £39,600 | Sefydliad Tavistock | 01/05/2001 |
| | ADETh | Gwerthusiad LEADER II, comisiwn ar y cyd â Rhwydwaith LEADER, a WEPE | WDA | £30,000 | Newidiem | 01/02/1999 |
| | WDA | Strategaeth System Wybodaeth | WDA | £69,332 | Deloitte & Touche | 01/02/2000 |
| | WDA | Adolygiadau economaidd / cyngor | WDA | £79,900 | P&C Economic Consultants | 01/06/2000 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | WDA | E-reolaeth rhaglenni'r WDA | WDA | £270,234 | Deloitte & Touche | 01/08/2000 |

**Contractau Gwasanaethau Ymgynghori yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad 1999 hyd 2006**

| Rhif y Contract | Adran | Teitl y Contract | Is-adran | Gwerth y Contract (heb gynn TAW) | Cwmni Llwyddiannus | Dyddiad Dyfarnu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 92/2005 | EPC | Gwerthusiad o ymchwil cynllunio Cymru | | 39,500 | Ecotec Ltd | 14/11/2005 |
| 063/2004 | EPC | Model RAB i Gymru | SD ETE52 | £48,888.00 | Charles River Associates | 30/07/2004 |
| 087/2004 | EPC | Cynghorydd sicrhau ansawdd allanol—rhaglen ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin | EPC - CAPM | £35,000.00 | TQMI | 12/10/2004 |
| 139/2003 | EPC | Adolygiad o fonitro arfordirol yng Nghymru | ENVP2 | £43,858 | Posford Haskoning | 01/04/2004 |
| 126/2003 | EPC | Ymgynghoriaeth cynllun gofodol drafft Cymru | Is-adran Cefn Gwlad | £67,000 | Kevin Murray Associates | 29/09/2003 |
| 196/2002 | ACChG | Ymgynghorwyr allanol: adolygiad parciau | TPE | £50,000 | Land Use Consultancy | 04/03/2003 |
| 231/2002 | ACChG | Cynlluniau gwastraff rhanbarthol, astudiaeth mewnforio ac allforio gwastraff | Cynllun-io (4) | £30,000 | SLR Consulting | 24/12/2002 |
| 250/2002 | ACChG | Anheddau hanfodol yng nghefn gwlad agored | Cynllun-io (4) | £60,000 | Land Use Consultancy | 29/08/2003 |
| 291/2002 | ACChG | Effeithiolrwydd y Cynulliad yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy | SPU | £29,150 | CAG Consultants | 22/05/2003 |
| 137/2001 | ACChG | Ymgynghoriaeth i astudio | Polisi Gwledig | £76,758.00 | Newidiem | 18/03/2002 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | opsiynau polisi ar gyfer cymunedau gwledig â chydbwysedd oedran | | | | |
| 004/2000 | ACCh G | Astudiaeth i arfarnu newydd-ddyfodiaid i fyd ffermio | APD4 | £36,840 | ADA Consulting | 23/03/2000 |
| 036/2000 | ACCh G | Penodiad ymgynghorol tymor byr | CAP | £36,000 | Mr Goodwin | 20/05/1999 |
| 132/2000 | ACCh G | Yn ôl y galw—Sgiliau Ymgynghorol TG (SCAT) | CAPM | £288,525 | W.S. Atkins | 07/07/2000 |
| 129/2000 | ACCh G | Astudiaeth o ynni adnewyddadwy yng Nghymru | CID | £69,995 | Sustainable Energy Ltd | 07/07/2000 |
| 178/2000 | ACCh G | Tomenni rwbel chwareli'r Gogledd—ffynhonnell gynaliadwy o agregau eilaidd | Cynllun-io | £36,730 | Ove Arup & Partners | 13/11/2000 |
| 230/2000 | ACCh G | Cyfansoddiad gwastraff dinesig yng Nghymru | TPE | £99,790 | AEA Technology | 22/11/2000 |
| 299/2000 | ACCh G | Gwerthusiad o gymorth gweithredol/amrywiadau cyllid | EP3 | £75,500 | Price Waterhouse Coopers | 27/02/2000 |
| 100/99 | ACCh G | Astudiaeth gwmpasu am strategaeth wastraff i Gymru | TPE | £56,129.75 | Ecotech | 03/11/1999 |
| 092/99 | ACCh G | Cymorth ymgynghorol i gynnal arolwg dwyieithog o gwsmeriaid | WOAD1 | £59,900 | NOP research | 16/02/2000 |
| 086/99 | ACCh | Cynllun | URD | £26,850 | Roger Tym & | 08/10/1999 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | G | datblygu gwledig | | | Partners | |
| 056/99 | ACCh G | Ymgynghoriaeth—model archwilio busnes | WOAD | £45,000 | Ethos Management | 03/08/1999 |
| 028/99 | ACCh G | Astudiaeth gwmpasu o'r newid yn yr hinsawdd: yr effaith yng Nghymru | Is-adran Amgyl-cheddol | £45,000 | Ysgol Amaethyddiaeth a Gwyddorau Coedwigaeth | 06/07/1999 |

**Contractau Gwasanaethau Ymgynghori Cyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus 1999 hyd 2006**

| **Rhif y Contract** | **Adran** | **Teitl y Contract** | **Is-adran** | **Gwerth y Contract (heb gynn TAW)** | **Cwmni Llwyddiannus** | **Dyddiad Dyfarnu** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 210/2005 | Llyw Leol | Astudiaeth cysylltiadau | | 53,550 | CRG Ltd | 08/04/2005 |
| 81/2005 | Llyw Leol | Diwygio gwasanaethau lleol | | 45,000 | Prifysgol Caerdydd | 29/09/2005 |
| 287/2002 | Cyllid | Adolygiad pum mlynedd ACCAC | FP2 | £50,800 | Open Direction | 24/04/2003 |
| 052/2000 | Cyllid | Adolygiad caffael Cymru | Fa4 | £30,000 | Martin Darcy | Mar-2000 |
| 107/99 | Cyllid | Gwasanaethau ymgynghorol | FA | £50,000 | Price Waterhouse Coopers | 22/12/1999 |

**Contractau Gwasanaethau Ymgynghori Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 1999 hyd 2006**

| **Rhif y Contract** | **Adran** | **Teitl y Contract** | **Is-adran** | **Gwerth y Contract (heb gynn TAW)** | **Cwmni Llwyddiannus** | **Dyddiad Dyfarnu** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Iechyd | Adolygiad o Awdurdod Iechyd Gwent | RD | £320,000 | Price Waterhouse Coopers | Jun-06 |
| | Iechyd | Cynllun capasiti i wasanaethau anhwylderau personol | HCW | £48,000 | Finnamore Management Consultants | Mar-06 |
| | Iechyd | Asesiad effaith canolfan niwrowyddorau'r De | HCW | £72,000 | Finnamore Management Consultants | Mar-06 |
| | Iechyd | Adolygu tariffau trawsffiniol | RD | £54,000 | Badenock & Clark Geraldine Rolf | Aug-05 |
| | Iechyd | Rhestrau aros | RD | £89,925 | Rawlinson, Kellt | Jun-05 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | enghreifftiol | | | & Whittlestone Ltd | |
| | Iechyd | System adrodd am adolygiadau | RD | £94,580 | Badenock & Clark Geraldine Rolf | Feb-05 |
| | Iechyd | Cronfa ddata cyllidebu rhaglenni | RD | £42,505 | PA Consulting | Jan-05 |
| 066/2004 | Iechyd | Manyleb ar gyfer cymorth gwerthuso | HP3 | £60,512.00 | People and Work Unit | 11/11/2004 |
| | Iechyd | Gwerthusiad o'r cydweithredu wrth roi model iechyd cymdeithasol ar waith | SU | £49,900 | Yr Athro Vivienne Walters | 01/09/2004 |
| | Iechyd | Arwain datblygiad cronfa ddata o wybodaeth cyllidebu rhaglenni | RD | £25,000 | Graham McInnes | 22/11/2004 |
| | Iechyd | Adolygiad allanol o dair canolfan gwasanaethau a rennir | RD | £48,750 | Atos KPMG Consulting | 01/08/2004 |
| | Iechyd | Gwerthusiad o'r cynllun grant hybu iechyd—bwyd a ffitrwydd yng Nghymru | HPD | £38,200 | Sefydliad Bwyd, Byw'n Heini a Maeth, Prifysgol Bangor | 13/02/2004 |
| | Iechyd | Model aeddfedrwydd cyllidol i ymddiriedolaethau GIG | RD | £48,000 | Atos KPMG Consulting | 01/12/2003 |
| | Iechyd | Systemau rheoli mewnol mewn canolfannau gwasanaethau busnes | RD | £99,700 | Atos KPMG Consulting | 01/10/2003 |
| | Iechyd | Adolygu'r meysydd risg y rhoddir blaenoriaeth iddynt ym | HSPD | £95,000 | Prifysgol Cymru, Bangor | 29/07/2004 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | maes iechyd meddwl | | | | |
| 112/99 | Iechyd | Smokebusters—rheolaeth y rhaglen a'r drefn gyflenwi | HPD | £47,655 | Quadrant | 23/12/1999 |
| 090/99 | Iechyd | Datblygu system gwybodaeth reoli weithredol | SCP | £61,600 | Nuffield Institute for Health | 01/11/1999 |
| 45/2003 | Iechyd | Ymgynghorwyr Q&A | ASGC | £80,000 | QA Plus Ltd | 21/11/2003 |
| 75/2003 | Iechyd | Asesiad o'r fframwaith plant a phobl ifanc | CFD | £50,000 | Children in Wales | 14/10/2003 |
| 224/2002 | Iechyd | Adolygiad o bwrpas gwasanaethau maethu a'r ffordd y'u datblygir ac y'u rheolir | CFD4 | £36,000 | Roger Clough | 28/02/2003 |
| 225/2002 | Iechyd | Adolygiad o bwrpas gwasanaethau gofal preswyl a'u ffurf i'r dyfodol | CFD4 | £39,630 | Roger Clough | 28/02/2003 |
| 226/2001 | Iechyd | Ymgynghorydd gwybodaeth gofal plant | CFD | £49,500.00 | Hedra | 12/11/2001 |

**Contractau Gwasanaethau Ymgynghori Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 1999 hyd 2006**

| **Rhif y Contract** | **Adran** | **Teitl y Contract** | **Is-adran** | **Gwerth y Contract (heb gynn TAW)** | **Cwmni Llwyddiannus** | **Dyddiad Dyfarnu** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| "06/2005 | CC&A | Fframwaith camddefnyddio sylweddau | CSU | £49,650 | WHISC | 14/06/2005 |
| 001/2004 | CC&A | Ymgynghorydd annibynnol | Tai | £31,500 | Anne Delaney | 16/06/2004 |
| 127/2002 | CC&A | Cefnogi Pobl yng Nghymru | Tai | £50,000.00 | DT2 PIEDCU | 13/12/2002 |
| | CC&A | Tai a gofal cartref a chymorth yn gysylltiedig ag oed | Tai | £26,850.00 | Contact Consulting | 16/04/2002 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 227/2000 | CC&A | Prosiect i ddatblygu methodoleg adrodd o dan y Ddeddf arbed ynni cartref | Tai | £30,575.00 | National Energy Services | 16/11/2000 |
| 109/99 | CC&A | Astudiaeth tir llwyd | Tai | £29,235.00 | Hyder | 23/11/1999 |
| | CC&A | Adolygiad o gamddefnyddio sylweddau | CSU | £45,365 | Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru — Prifysgol Morgannwg | 01/12/2003 |
| 229/2003 | CC&A | Dadansoddiad o anghenion hyfforddi | CSU | £59,000 | CAIS Cyf | 23/07/2004 |

**Glyn Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau a yw ei Adran yn defnyddio golau traffig mewnol neu system o godau lliw mewn perthynas â Chwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad ac a yw'r Adran yn graddio neu ddosbarthu Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad yn ôl eu sensitifrwydd gwleidyddol? (WAQ48746) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ48749.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Gweinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48762) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48761.

**Peter Black:** Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i addewidion maniffesto Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth benderfynu ar y gyllideb ddrafft? (WAQ49713)

**Sue Essex:** Yr oedd y gyllideb ddrafft yn rhoi ystyriaeth i'r ymrwymiadau sydd wedi cael eu gwneud gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cyllid Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer adnewyddu meysydd chwarae cyhoeddus? (WAQ49844)

**Sue Essex:** Nid oes dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu meysydd chwarae cyhoeddus. Yng nghyd-destun cymorth Llywodraeth y Cynulliad, darperir cyllid heb ei neilltuo y mae modd ei ddefnyddio tuag at gost gyfalaf adeiladu ac adnewyddu neu gost refeniw cynnal meysydd chwarae cyhoeddus yn gyffredinol. Darparwyd cyllid cyfalaf cyffredinol heb ei neilltuo o £212 miliwn a grant cynnal refeniw o £3.5 biliwn i'r awdurdodau lleol yn 2006-07.

Yn ôl adran 508 o Ddeddf Addysg 1996, gall awdurdod addysg lleol sefydlu, cynnal a chadw a rheoli neu gynorthwyo i sefydlu, cynnal a chadw a rheoli cyfleusterau adloniant, yn cynnwys meysydd chwarae. Caiff cyfleusterau o'r fath eu darparu fel sy'n ofynnol ar sail blaenoriaethau lleol.

Un ffynhonnell gyllid arall bosibl yw'r grant ysgolion bro sydd ar gael i awdurdodau addysg lleol. Mae cyfanswm o £10 miliwn wedi bod ar gael rhwng 2005 a 2008 ar gyfer datblygiadau bro. Gall y grant helpu ysgolion a phartneriaid i ddarparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau yn ystod a thu hwnt i'r diwrnod ysgol, i helpu i ddiwallu anghenion disgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Gallai sefydlu a chynnal a chadw cyfleusterau chwarae i ddiwallu anghenion y gymuned fod o fewn cwmpas y grant.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47899) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Leanne Wood:** Faint y mae'r Prif Weinidog wedi'i wario ar ffioedd ymgynghorwyr ym mhob blwyddyn rhwng 2002-03 a 2005-06? (WAQ48523) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at WAQ47898 a WAQ48518.

**Glyn Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau a yw ei adran yn defnyddio golau traffig mewnol neu system o godau lliw mewn perthynas â Chwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad ac a yw'r Adran yn graddio neu ddosbarthu Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad yn ôl eu sensitifrwydd gwleidyddol? (WAQ48747) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ48749.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Gweinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48763) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48761.

**Jenny Randerson:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i frechu menywod ifanc yn erbyn canser ceg y groth? (WAQ49853)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Mae defnyddio'r brechlyn HPV yn y DU yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan y Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, grŵp arbenigol annibynnol sy'n cynghori pob un o bedair adran iechyd Llywodraethau'r DU. Mae angen i unrhyw argymhellion am ddefnyddio'r brechlynnau hyn gael eu gwneud yn dilyn asesiad llawn o'r dystiolaeth sydd ar gael. Mae'r cydbwyllgor yn ymwybodol o'r diddordeb cyhoeddus cynyddol yn y brechlyn hwn. Dim ond ar ôl cael cyngor arbenigol y prif gydbwyllgor y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud unrhyw benderfyniadau polisi am y brechlyn HPV.

**David Lloyd:** Pa weithgarwch ar lefel Gweinidogion sy'n digwydd yng Nghymru, i adlewyrchu'r pwyllgorau Gweinidogion a dethol yn Lloegr sy'n ystyried maes ymchwil a datblygu rheolaeth canser y brostad yn ei gyfanrwydd? (WAQ48835)

**David Lloyd:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo ymchwil a thriniaethau ym maes canser y brostad yng Nghymru, ac a wnaiff ef amlinellu cynlluniau ynghylch sut y bydd y gwaith hwn yn datblygu ymhellach? (WAQ48836)

**David Lloyd:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella sgrinio canser y brostad yng Nghymru? (WAQ48837)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi safonau canser cenedlaethol ar gyfer canser wrolegol, sy'n cynnwys canser y brostad. Mae'r tri rhwydwaith canser rhanbarthol yn bwrw ymlaen i weithredu'r safonau hyn a chanllawiau gwasanaeth gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol. Ein polisi ar fynd i'r afael â chanser yw dull cyfannol sy'n rhoi sylw i atal, canfod yn gynnar, diagnosio a thrin ac ymlaen hyd at ofal lliniarol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyllido Banc Canser Cymru. Nod y banc yw casglu a storio samplau o diwmorau canser, meinweoedd a gwaed oddi wrth bob claf sy'n cydsynio sydd â chanser posibl neu ganser wedi'i gadarnhau, fel sail i astudiaethau gwyddonol yn y dyfodol. Bydd yr astudiaethau hyn yn help i sefydlu achosion canser, ac yn help i ddynodi meysydd triniaeth ac i ddethol y driniaeth orau i gleifion unigol. Er mis Hydref 2006, mae Banc Canser Cymru wedi bod yn casglu samplau o saith safle ar draws Cymru yn cynnwys: Ysbyty Athrofaol Cymru, Llandoche; ysbytau Singleton a Threforys (Abertawe); Ysbyty Llwyn Helyg (Hwlffordd); Ysbyty Brenhinol Gwent (Casnewydd); ac Ysbyty Gwynedd (Bangor). Yn arbennig, mae'n casglu samplau canser y brostad ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae Banc Canser Cymru'n bwriadu casglu samplau canser y brostad gan gleifion canser y brostad ar draws rhagor o safleoedd yn y dyfodol agos. Cyn gynted ag y bydd y banc wedi casglu digon o samplau, bydd ymchwilwyr yn gallu gwneud cais i'w defnyddio mewn astudiaethau ymchwil yn y dyfodol.

Yr ydym yn gweithio'n agos gyda'r Adran Iechyd a'r grŵp siarter ar weithredu ynglŷn â chanser y brostad a byddwn yn ystyried pa gamau ddylai gael eu cymryd yng Nghymru unwaith y bydd y gwaith hwn wedi dwyn ffrwyth. Mae'r grŵp siarter ar weithredu ynglŷn â chanser y brostad am godi ymwybyddiaeth o ganser y brostad. Mae cyfarwyddwr y grŵp cyd-drefnu gwasanaethau canser yn sylwedydd ar grŵp cynghori'r Adran Iechyd ar ganser y brostad sy'n ystyried ffyrdd o wella'r gwasanaethau i gleifion canser y brostad yn Lloegr ac mae wedi nodi cynnwys y siarter. Bydd y grŵp cyd-drefnu yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r GIG am unrhyw weithredu pellach sy'n ofynnol yn benodol i fynd i'r afael â chanser y brostad, y tu hwnt i'r hyn yr ydym yn ei wneud yn barod. Fel rhan o hyn, mae grŵp llywio canserau wrolegol y grŵp cyd-drefnu wedi darparu cyngor arbenigol i Gomisiwn Iechyd Cymru am brachytherapi.

Mae negeseuon Her Iechyd Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru am ffyrdd iach o fyw yn hyrwyddo iechyd ac yn codi ymwybyddiaeth yn gyffredinol am ganser.

Mae prawf am ganser y brostad wedi cael ei ddatblygu. Nid yw'r Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol, sy'n cynghori pedair gweinyddiaeth iechyd y DU, yn cefnogi'r angen am raglen sgrinio genedlaethol am fod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r prawf yn cynnwys canlyniadau positif di-sail. Gall hyn, yn ei dro, arwain at bryder a thriniaeth ddianghenraid.

Mae dynion yng Nghymru yn cael cefnogaeth i benderfynu ar sail gwybodaeth a ydynt am gymryd y prawf antigen prostad benodol ai peidio. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynhyrchu taflen i'r diben hwn ac mae gwefan ar gael sy'n cynnwys pecyn cymorth penderfynu.

**Jenny Randerson:** Pa effaith, os o gwbl, a gaiff y buddsoddiad cyfalaf yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a gyhoeddwyd mewn datganiad diweddar gan y cabinet, ar gynlluniau honedig i israddio'r uned ddamweiniau ac achosion brys yn un ai Ysbyty'r Tywysog Siarl neu Ysbyty Brenhinol Morgannwg? (WAQ48871)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r buddsoddiad cyfalaf yn Ysbyty'r Tywysog Siarl a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn effeithio ar y sefyllfa yn ymddiriedolaethau GIG gogledd Morgannwg na Phontypridd a Rhondda. Ar hyn o bryd, nid oes gan y GIG gynlluniau i 'israddio'r' naill na'r llall. Mae'r buddsoddiad yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn sicrhau y bydd y cyfleusterau damweiniau ac achosion brys ym Merthyr Tudful yn cael eu gwella ac y byddant yn darparu cyfleuster gwell, modern, addas i'r diben, a fydd o fudd i'r boblogaeth leol.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch pa strwythurau sydd yn eu lle i sicrhau bod BILlau yn ymateb i gyfarwyddyd a roddwyd gan y Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac a wnaiff roi manylion y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion? (WAQ48873)

**Brian Gibbons:** Mae gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru rwydwaith o dair swyddfa ranbarthol ar draws Cymru. Mae'r cyfarwyddwyr rhanbarthol yn gweithredu fel asiantau pennaeth yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mhob un o'r rhanbarthau hyn ac un o'u swyddogaethau yw dal prif weithredwyr cyrff GIG statudol yng Nghymru, yn cynnwys BILlau, i gyfrif ar sail feunyddiol. Mae'r cyfarwyddwyr rhanbarthol hefyd yn rheoli perfformiad y BILlau yn unol â'r fframwaith ar gyfer gwella'n barhaus.

Caiff llawer o'r canllawiau a roddir i BILlau yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru eu cyhoeddi ar ffurf cylchlythyron iechyd Cymru. Lle bo hynny'n briodol, mae'r rhain yn datgan yn glir erbyn pa ddyddiad y mae disgwyl i'r cyrff iechyd dan sylw roi gofynion ar waith, ymateb neu weithredu.

**Jenny Randerson:** Pa drefniadau cyllido a sefydlwyd er mwyn sicrhau capasiti gwasanaeth digonol ar gyfer cleifion a ganfuwyd â chanser y fron HER2 cadarnhaol? (WAQ49552)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau i gleifion y mae angen triniaeth arnynt ar ôl cael cadarnhad eu bod yn HER2 positif.

Penderfyniad clinigol yw pa un i ragnodi trastuzumab (Herceptin) ar ôl diagnosis ac fe'i seilir ar natur y tiwmor a pha mor briodol yw'r driniaeth i'r unigolyn dan sylw. Yn dilyn canllawiau gan grŵp strategaeth meddyginiaethau Cymru gyfan ar trastuzumab ar gyfer achosion cynnar o ganser y fron, ymgymerodd y rhwydweithiau canser rhanbarthol ag asesiad angen a datblygasant gyngor comisiynu, gyda chymorth y byrddau iechyd lleol, ar brofi a gweinyddu'r driniaeth, i ddiwallu'r galw.

**Lisa Francis:** Pam fod Comisiwn Iechyd Cymru wedi gwrthod ariannu ysgogi yn nwfn yr ymennydd ar gyfer pobl â chlefyd Parkinson, ac a oedd y penderfyniad hwn wedi ei seilio ar dystiolaeth? (WAQ49715)

**Brian Gibbons:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ49312.

**Lisa Francis:** Faint o ddioddefwyr clefyd Parkinson yng Nghymru a allai fod yn gymwys i dderbyn triniaeth ysgogi yn nwfn yr ymennydd (YNY)? (WAQ49716)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb Comisiwn Iechyd Cymru yw darparu gwasanaethau ysgogi yn nwfn yr ymennydd i gleifion sydd â chlefyd Parkinson. Y comisiwn sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r asesiadau angen angenrheidiol ac i flaenoriaethu gwasanaethau yn unol â hynny, o fewn yr adnoddau cyfyngedig sy'n cael eu darparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae darparu'r driniaeth hon wedi cael ei ddynodi'n flaenoriaeth isel i'r comisiwn yn 2006/07. Cefnogwyd y penderfyniad hwn gan fwrdd cynghori cenedlaethol y comisiwn ar gomisiynu yn ei gyfarfod ar 7 Mehefin 2006. Bydd y comisiwn yn adolygu ei bolisi ar YNY yn flynyddol, a bydd ei statws blaenoriaeth yn cael ei adolygu, ar ôl cyhoeddi canlyniadau treial y Cyngor Ymchwil Meddygol, fel maes posibl i fuddsoddi ynddo yn y dyfodol.

Nid oes ystadegau manwl am faint o ddioddefwyr clefyd Parkinson yng Nghymru a allai fod yn gymwys i gael triniaeth YNY yn cael eu dal yn ganolog ar y ffurf a geisiwyd. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau bod y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol wedi datgan y gallai rhwng 1 a 10 y cant o bobl sydd â chlefyd Parkinson fod yn addas i gael YNY.

**Lisa Francis:** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gydag ymgynghorwyr neu arbenigwyr am driniaeth ysgogi yn nwfn yr ymennydd (YNY) ar gyfer cleifion â chlefyd Parkinson? (WAQ49717)

**Brian Gibbons:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gydag ymgynghorwyr nac arbenigwyr am driniaeth ysgogi yn nwfn yr ymennydd i gleifion sydd â chlefyd Parkinson.

**Lisa Francis:** Pryd fydd Comisiwn Iechyd Cymru yn cyfarfod â byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG i ddatblygu gwasanaethau anhwylderau bwyta trydyddol wedi eu lleoli yn y gymuned, er mwyn trin pobl ag anhwylderau bwyta mwy difrifol? (WAQ49718)

**Lisa Francis:** Sut y mae Comisiwn Iechyd Cymru yn gweithio gydag ymddiriedolaethau GIG i ddatblygu timoedd maes arbenigol a chyfleusterau gofal dydd i gefnogi cleifion sydd ag anhwylderau bwyta yn eu cartrefi eu hunain? (WAQ49722)

**Brian Gibbons:** Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn datblygu gwasanaeth anhwylderau bwyta trydyddol yn y gymuned i drin cleifion sydd ag anhwylderau bwyta mwy difrifol; bydd hyn yn lleihau'r angen am wasanaeth cleifion mewnol arbenigol. Mae'r comisiwn yn y broses o gwrdd â'r byrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau er mwyn datblygu gwasanaethau priodol i'r grŵp hwn o gleifion.

Fel cam gweithredu allweddol yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol diwygiedig ar iechyd meddwl oedolion, bydd ystod o wasanaethau arbenigol ar gael ar draws Cymru. Dylai'r rhain gynnwys gwasanaethau anhwylderau bwyta hygyrch yn ardal pob ymddiriedolaeth GIG. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i'r BILlau a'r comisiwn archwilio'r ddarpariaeth gwasanaethau anhwylderau bwyta i gleifion mewnol a datblygu gwasanaethau priodol yn unol â'u strategaethau comisiynu.

Mae'r BILlau yn cynhyrchu eu cynlluniau gweithredu lleol eu hunain, yn dangos sut y maent yn bwriadu rhoi camau gweithredu'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar waith a chyflwyno gwasanaethau iechyd meddwl ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai sy'n ofynnol i gyrraedd targedau presennol y fframwaith gwasanaeth a chyllid.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol i ddatblygu llwybr gofal anhwylderau bwyta i wasanaethau o ofal sylfaenol hyd at ofal trydyddol. Byddwn yn disgwyl i bob haen o'r gwasanaeth roi sylw i'r llwybr hwn a chanllawiau clinigol NICE wrth ystyried sut i ddatblygu darpariaeth anhwylderau bwyta.

**Lisa Francis:** Pryd fydd cynllun Comisiwn Iechyd Cymru i gynllunio gwasanaethau anhwylderau bwyta trydyddol wedi eu lleoli yn y gymuned wedi ei gwblhau, a ble a phryd y mae'n debygol o gael ei weithredu? (WAQ49719)

**Brian Gibbons:** Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn y broses o ddatblygu gwasanaeth anhwylderau bwyta trydyddol yn y gymuned i drin cleifion sydd ag anhwylderau bwyta mwy difrifol; bydd hyn yn lleihau'r angen am wasanaeth cleifion mewnol arbenigol.

Mae'r comisiwn yn bwriadu datblygu gwasanaeth newydd i dde-ddwyrain Cymru i ddechrau yn ddiweddarach eleni ac mae'n cynnal trafodaethau gyda grŵp buddiant arbennig anhwylderau bwyta Cymru gyfan a'r ymddiriedolaeth am gynigion ar gyfer y gwasanaeth newydd.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau arbenigol i drin cleifion ag anhwylderau bwyta? (WAQ49720)

**Brian Gibbons:** Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i'r cleifion hynny sydd ag anhwylderau bwyta nad oes angen triniaeth fel claf mewnol neu driniaeth gofal dydd arbenigol arnynt. Caiff cleifion dan 18 oed eu gweld gan wasanaethau cymunedol i ddechrau a chânt eu cyfeirio at dimau therapi dwys cymunedol lle bo hynny'n berthnasol neu eu cyfeirio i'r uned haen 4 os oes rhaid.

Comisiwn Iechyd Cymru sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau arbenigol anhwylderau bwyta. Gall plant a phobl ifanc y mae angen gofal arbenigol fel cleifion mewnol arnynt gael eu derbyn i uned Harvey Jones yng Nghaerdydd. Mae mynediad i'r uned wedi gwella dros y misoedd diwethaf, ond mae'r comisiwn wedi ymrwymo i wella ac ehangu'r gwasanaeth ac mae'n bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ynghylch cynlluniau i ddatblygu gwasanaeth cleifion mewnol iechyd meddwl plant a'r glasoed ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a fydd yn disodli uned Harvey Jones. Y cynigion yw ateb interim mewn darpariaeth wedi'i huwchraddio yng Nglanrhyd a fydd ar gael erbyn diwedd 2007 a chyfleuster pwrpasol, parhaol, ar safle Ysbyty Tywysoges Cymru erbyn mis Mehefin 2009.

Yn ychwanegol at y datblygiad CAMHS, mae'r comisiwn yn y broses o ddatblygu gwasanaeth anhwylderau bwyta trydyddol yn y gymuned i drin cleifion sydd ag anhwylderau bwyta mwy difrifol; bydd hyn yn lleihau'r angen am wasanaeth cleifion mewnol arbenigol. Mae'r comisiwn wedi gwahodd ymddiriedolaethau GIG i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb mewn datblygu'r gwasanaeth hwn ac unwaith y bydd y cynigion wedi dod i law bydd yn gweithio gyda darparwr i ddatblygu gwasanaeth newydd.

Fel cam gweithredu allweddol yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol diwygiedig ar iechyd meddwl oedolion, bydd ystod o wasanaethau arbenigol ar gael ar draws Cymru. Dylai'r rhain gynnwys gwasanaethau anhwylderau bwyta hygyrch yn ardal pob ymddiriedolaeth GIG. Yr ydym wedi gofyn i'r BILlau a'r comisiwn archwilio'r ddarpariaeth gwasanaethau anhwylderau bwyta i gleifion mewnol a datblygu gwasanaethau priodol yn unol â'u strategaethau comisiynu.

Mae'r BILlau yn cynhyrchu eu cynlluniau gweithredu lleol eu hunain, yn dangos sut y maent yn bwriadu rhoi camau gweithredu'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar waith a chyflwyno gwasanaethau iechyd meddwl ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai sy'n ofynnol i gyrraedd targedau presennol y fframwaith gwasanaeth a chyllid.

Yr ydym hefyd wedi comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol i ddatblygu llwybr gofal anhwylderau bwyta i wasanaethau o ofal sylfaenol hyd at ofal trydyddol. Mewn ymateb i'n cais, mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol wedi cynhyrchu ei bapur trafod am lwybr gofal arfaethedig neu fodel gofal ar gyfer anhwylderau bwyta. Gellir lawrlwytho'r papur hwn oddi ar ei wefan ar www.nphs.wales.nhs.uk. Byddem hefyd yn disgwyl i bob haen o'r gwasanaeth roi sylw i'r llwybr hwn a chanllawiau clinigol NICE wrth ystyried sut i ddatblygu darpariaeth anhwylderau bwyta.

**Lisa Francis:** Pryd fydd Comisiwn Iechyd Cymru wedi cwblhau ei adolygiad o'r galw am welyau mewnol a fydd yn sail i bennu nifer y gwelyau a gomisiynir yn yr uned CAMHS ac anhwylderau bwyta newydd yng Nglanrhyd? (WAQ49723)

**Brian Gibbons:** Mae'r comisiwn wedi cwblhau'r adolygiad ac mae'n bwriadu dechrau ymgynghori am gynigion ar gyfer yr uned newydd yng Nglanrhyd ym mis Mai.

**Lisa Francis:** Pryd fydd y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol wedi cwblhau'r gwaith o ddatblygu llwybr gofal anhwylderau bwyta a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ49724)

**Brian Gibbons:** Mewn ymateb i'n cais, mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol wedi cynhyrchu ei bapur trafod am lwybr gofal neu fodel gofal arfaethedig ar gyfer anhwylderau bwyta. Gellir lawrlwytho'r papur hwn oddi ar ei wefan ar www.nphs.wales.nhs.uk.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau podiatreg sydd ar gael ar gyfer cleifion â diabetes? (WAQ49726)

**Brian Gibbons:** Mae'r cyfrifoldeb comisiynu am wasanaethau podiatreg yn gorffwys gyda'r byrddau iechyd lleol. Mater i bob BILl yw asesu'r anghenion iechyd yn lleol a gweithio gyda darparwyr gwasanaethau gofal iechyd ac eraill i gynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau i ddiwallu'r angen hwnnw o fewn yr adnoddau sy'n cael eu darparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae grŵp podiatreg Cymru gyfan wedi datblygu canllawiau ar reoli gofal traed pobl sydd â diabetes. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu hymgorffori yng nghanllawiau consensws Cymru gyfan ar reoli pobl sydd â diabetes mellitus.

Mae statws blaenoriaeth yn cael ei roi i unrhyw berson â diabetes yr asesir bod risg ganolig i uchel iddo i ddatblygu cymhlethdodau traed.

Ym mis Tachwedd 2006, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad 'Strategaeth Therapïau ar gyfer Cymru: Therapïau ar gyfer Moderneiddio'. Yr oedd hon yn nodi cyfraniadau therapïau—yn cynnwys podiatreg—at y rhaglen foderneiddio.

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amseroedd aros a bennwyd ar gyfer pobl sy'n dioddef o ganser yng Nghymru ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad? (WAQ49728)

**Brian Gibbons**: Nodir ein targedau cyfredol o ran cyrchu at wasanaethau isod:

- dylai cleifion sy'n cael eu cyfeirio fel achosion brys lle'r amheuir canser gan y meddyg teulu a bod yr achos yn cael ei gadarnhau fel un brys gan aelod o'r tîm amlddisgyblaethol neu ei gynrychiolydd ddechrau ar driniaeth ddiffiniol o fewn 62 diwrnod i'r gyfeireb ddod i law'r ysbyty, os ceir diagnosis o ganser.
- pan geir diagnosis o ganser, dylai cleifion nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys fel achos 'brys lle'r amheuir canser' ddechrau ar driniaeth ddiffiniol o fewn 31 diwrnod i'r diagnosis, waeth beth oedd y llwybr cyfeirio.

Mae'r tabl isod yn dangos manylion cleifion a oedd newydd gael diagnosis o ganser a oedd yn dechrau ar driniaeth ddiffiniol yn ystod y chwarter yn gorffen 31 Rhagfyr 2006:

| | Drwy'r llwybr amheuaeth frys | Heb fod drwy'r llwybr amheuaeth frys |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm y cleifion yn dechrau ar driniaeth yn ystod y chwarter | 1,052 | 2,513 |
| Y nifer a gafodd driniaeth o fewn y targed | 798 | 2,379 |
| Y ganran a ddechreuodd ar eu triniaeth o fewn y targed | 76 y cant | 95 y cant |

Ffynhonnell: Yr uned ystadegau a dadansoddi iechyd

Mae'r wybodaeth yn anghyflawn am rai safleoedd tiwmorau. Nid yw Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru wedi darparu gwybodaeth am ganserau plant am y chwarter ac nid yw Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg wedi darparu gwybodaeth am ganserau'r ymennydd/y brif system nerfol a phlant am fis Hydref. Cafodd y data diweddaraf am y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2006 ei ryddhau i'r cyhoedd ar 7 Mawrth 2007 yn y cyfeiriad canlynol: http://www.statswales.wales.gov.uk/index.htm

**Leighton Andrews:** Pa hyfforddiant sy'n cael ei roi i feddygon teulu ym maes triniaeth gofal canser, a faint o bwys a roddir i hyn yn y contract gwasanaethau meddygol cyffredinol? (WAQ49729)

**Brian Gibbons:** Mae gan feddygon teulu rôl bwysig o ran darparu cyngor i gleifion am atal canser, canfod canser yn gynnar, y driniaeth reolaidd a roddir i gleifion sydd â chanser a gofal lliniarol. Mae'r cynllun hyfforddiant galwedigaethol i feddygon teulu yn cynnwys hyfforddiant cynhwysfawr ynglŷn â gofal canser.

Mae'r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol yn galluogi cleifion i gael triniaethau canser fel pigiadau Zoladex yn y gymuned fel gwasanaeth ychwanegol lleol. Mae fframwaith ansawdd a chanlyniadau'r contract yn cynnwys dangosyddion o ran gofal canser a gofal lliniarol, gan annog ansawdd uchel o ofal sylfaenol drwy reolaeth amlddisgyblaethol dros gleifion.

**Alun Cairns:** Pa arweiniad y mae'r Gweinidog wedi ei roi i fyrddau iechyd lleol gyda golwg ar hyrwyddo hypercholesterolaemia teuluol, gwybodaeth amdano a thriniaeth ar ei gyfer? (WAQ49741)

**Alun Cairns:** Pa bolisïau sydd ar gael i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth am hypercholesterolaemia teuluol? (WAQ49743)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod pwysigrwydd trin hypercholesterolaemia teuluol (FH) ac anhwylderau lipidau etifeddol eraill er mwyn lleihau morbidrwydd a marwolaethau cynamserol o glefyd coronaidd y galon.

Mae triniaethau cyffuriau modern am FH ac anhwylderau lipidau etifeddol eraill, o'u cyfuno â chyngor am ffordd o fyw (ysmygu yn arbennig) yn effeithiol iawn mewn gwaith atal, yn enwedig o'u cyfuno â goruchwyliaeth fyw am arwyddion cynnar clefyd coronaidd.

O ran y canllawiau i BILlau, mae fersiwn diweddaredig y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer clefyd coronaidd y galon, er nad yw wedi cael ei gyhoeddi eto, yn argymell y dylai pobl sydd ag FH gael cynnig triniaeth LDL benodol i ostwng lefelau colesterol yn ogystal â chyngor ffordd o fwy a thriniaeth ar gyfer ffactorau risg eraill. Mae'r fersiwn diweddaredig hefyd yn argymell y dylid datblygu a chynnal cofrestr i Gymru gyfan o bobl y canfyddir bod ganddynt FH. Mae Parc Geneteg Cymru wedi cyllido prosiect tair blynedd i ddatblygu cofrestr wedi'i chyd-drefnu ar gyfer y rhai sydd ag FH.

Agweddau allweddol o'r driniaeth i'r rhai sydd ag FH ac anhwylderau lipidau etifeddol eraill ar hyn o bryd yw'r ddarpariaeth gwasanaethau lipidau arbenigol a gwasanaethau cwnsela genetig cysylltiol. Mae gan Gymru naw clinig lipidau pwrpasol ar hyn o bryd, pedwar clinig lipidau/endocrinau, dau glinig

lipidau/cardioleg a dau glinig lipidau pediatrig/glasoed. Mae nyrs arbenigol wedi bod mewn swydd, yn gweithio rhwng ymddiriedolaethau GIG Caerdydd a'r Fro a Bro Morgannwg, yn helpu i dreialu sgrinio rhaeadrol, ond nid yw hon yn swydd barhaol. Byddai'r cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaeth pwrpasol i'r rhai sydd ag FH a'u teuluoedd yn gorffwys gyda'r BILlau.

Cynhaliodd y grŵp cyd-drefnu rhwydweithiau cardiaidd yng Nghymru symposiwm FH llwyddiannus ym mis Tachwedd 2005 a chafwyd consensws yno fod FH yn flaenoriaeth er mwyn atal clefyd coronaidd y galon. Ers hynny mae grŵp buddiant arbennig FH wedi cael ei sefydlu dan nawdd y grŵp cyd-drefnu ac mae nifer o sesiynau codi ymwybyddiaeth i weithwyr iechyd proffesiynol, cleifion a'u teuluoedd wedi cael eu cynnal. Mae gan Gymru dri chynrychiolydd hefyd ar grŵp datblygu canllawiau NICE sy'n ystyried FH ar hyn o bryd.

**Nick Bourne:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i hyrwyddo sgrinio rhaeadrol dan arweiniad nyrsys am hypercholesterolaemia teuluol mewn teuluoedd yng Nghymru? (WAQ49845)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod pwysigrwydd trin hypercholesterolaemia teuluol (FH) er mwyn lleihau morbidrwydd a marwolaethau cynamserol o glefyd coronaidd y galon. Mae nyrs arbenigol wedi bod mewn swydd, yn gweithio rhwng ymddiriedolaethau GIG Caerdydd a'r Fro a Bro Morgannwg, yn helpu i dreialu sgrinio rhaeadrol.

Mae triniaethau cyffuriau modern am FH wedi'u cyfuno â chyngor am ffordd o fyw (ysmygu yn arbennig) yn effeithiol iawn mewn gwaith atal, yn enwedig o'u cyfuno â goruchwyliaeth fyw am arwyddion cynnar clefyd coronaidd.

Yn ddiweddar cynhaliodd y grŵp cyd-drefnu rhwydweithiau cardiaidd yng Nghymru symposiwm FH llwyddiannus a chafwyd consensws yno fod FH yn flaenoriaeth er mwyn atal clefyd coronaidd y galon. Mae wedi cael ei bennu fel targed yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol cardiaidd i Gymru.

Agweddau allweddol o'r driniaeth i'r rhai sydd ag FH ar hyn o bryd yw'r ddarpariaeth gwasanaethau lipidau arbenigol a gwasanaethau cwnsela genetig cysylltiol. Mae gan Gymru naw clinig lipidau pwrpasol ar hyn o bryd, pedwar clinig lipidau/endocrinau, dau glinig lipidau/cardioleg a dau glinig lipidau pediatrig/glasoed.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyled Comisiwn Iechyd Cymru a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol? (WAQ49856)

**Brian Gibbons:** Mae'n argoeli y bydd Comisiwn Iechyd Cymru yn cyrraedd y targed ariannol gofynnol ar gyfer 2006-07 heb orfod cael unrhyw gymorth ariannol ychwanegol uwchlaw'r lefel a gynlluniwyd o £5 miliwn.

**Helen Mary Jones:** Ar gyfer pob ardal BILl; a wnaiff y Gweinidog roi manylion cyfanswm y gwariant deintyddol ar gyfer pob chwarter yn ystod blwyddyn ariannol 2006-07, ac yn ogystal y refeniw a gasglwyd mewn gwirionedd drwy gyfraniadau cleifion a sut yr oedd hyn yn cymharu â'r amcangyfrifon gwreiddiol? (WAQ49857)

**Brian Gibbons:** Mae'r tablau isod yn dangos dyraniadau deintyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, y cyfanswm gwariant deintyddol crynswth a'r refeniw gwirioneddol a gasglwyd drwy gyfraniadau cleifion fesul BILl am chwarteri 1 i 3 o 2006-07. Bydd ffigurau alldro terfynol chwarter 4, yn rhoi'r gwariant crynswth a'r refeniw o daliadau cleifion, ar gael ym mis Gorffennaf 2007. Ni ellir cymharu'r ffigurau alldro terfynol â'r amcangyfrifon gwreiddiol o daliadau cleifion hyd nes y bydd y sefyllfa ar ôl archwilio yn hysbys.

| | | Gwariant Crynswth £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|
| **BILl** | **Dyraniad crynswth LlCC** | **Ch1 gwirioneddol** | **Ch2 gwirioneddol cronnus** | **Ch3 gwirioneddol cronnus** |
| Caerdydd | 19,870 | 4,674 | 9,194 | 14,190 |
| Merthyr Tudful | 2,766 | 450 | 1,134 | 2,068 |
| Rhondda Cynon Taf | 11,475 | 2,695 | 5,933 | 8,474 |
| Bro Morgannwg | 5,620 | 1,312 | 2,685 | 3,942 |
| Sir Gaerfyrddin | 9,045 | 1,952 | 4,242 | 6,643 |
| Ceredigion | 4,100 | 854 | 1,470 | 2,209 |
| Sir Benfro | 3,819 | 577 | 1,058 | 1,599 |
| Powys | 6,352 | 1,546 | 3,058 | 4,625 |
| Blaenau Gwent | 3,871 | 970 | 1,934 | 2,943 |
| Caerffili | 8,346 | 1,994 | 4,072 | 6,099 |
| Sir Fynwy | 4,517 | 827 | 1,676 | 3,466 |
| Casnewydd | 7,510 | 1,876 | 3,718 | 5,628 |
| Tor-faen | 3,924 | 1,005 | 1,968 | 2,971 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7,866 | 1,301 | 3,445 | 5,482 |
| Castell-nedd Port Talbot | 6,905 | 1,361 | 3,135 | 4,710 |
| Abertawe | 13,904 | 3,373 | 6,487 | 9,438 |
| Ynys Môn | 2,482 | 440 | 961 | 1,650 |
| Conwy | 4,017 | 1,027 | 1,969 | 2,994 |
| Sir Ddinbych | 6,461 | 1,085 | 2,822 | 4,343 |
| Sir y Fflint | 5,813 | 1,603 | 2,810 | 3,871 |
| Gwynedd | 4,808 | 793 | 1,187 | 1,923 |
| Wrecsam | 5,695 | 1,360 | 2,863 | 4,306 |
| **Cyfansymiau** | **149,166** | **33,075** | **67,821** | **103,574** |

| | Incwm £000oedd | | | |
|---|---|---|---|---|
| **BILl** | **Dyraniad LlCC** | **Ch1 gwirioneddol** | **Ch2 gwirioneddol cronnus** | **Ch3 gwirioneddol cronnus** |
| Caerdydd | 3,685 | 744 | 1,281 | 2,386 |
| Merthyr Tudful | 741 | - | 166 | 317 |
| Rhondda Cynon Taf | 2,633 | 658 | 943 | 1,570 |
| Bro Morgannwg | 1,217 | 219 | 439 | 658 |
| Sir Gaerfyrddin | 851 | 34 | 149 | 503 |
| Ceredigion | 420 | 18 | 144 | 277 |
| Sir Benfro | 346 | 29 | 108 | 174 |
| Powys | 1,321 | 330 | 555 | 870 |
| Blaenau Gwent | 681 | 170 | 341 | 489 |
| Caerffili | 1,701 | 308 | 535 | 882 |
| Sir Fynwy | 932 | - | 466 | 699 |
| Casnewydd | 1,555 | 389 | 744 | 1,166 |
| Tor-faen | 798 | - | 317 | 508 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,695 | 75 | 517 | 857 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,651 | 47 | 506 | 761 |
| Abertawe | 2,947 | 737 | 705 | 1,291 |
| Ynys Môn | 469 | 49 | 127 | 240 |
| Conwy | 673 | 196 | 270 | 486 |
| Sir Ddinbych | 1,631 | 121 | 408 | 772 |
| Sir y Fflint | 1,096 | 366 | 319 | 676 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 496 | 1 | 74 | 166 |
| Wrecsam | 1,195 | 299 | 597 | 896 |
| **Cyfansymiau** | **28,734** | **4,790** | **9,711** | **16,644** |

**Rhodri Glyn Thomas:** Ac ystyried y rhaglen moderneiddio gyrfaoedd meddygol; a wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw gynlluniau sydd ganddo i adolygu'r ffordd y caiff swyddi hyfforddi eu rhannu? (WAQ49858)

**Brian Gibbons:** Mae moderneiddio gyrfaoedd meddygol yn strategaeth i'r DU gyfan i foderneiddio'r ffordd y mae meddygon yn cael eu hyfforddi. Nid yw'r rhaglen yn fater sydd wedi cael ei ddatganoli. Mae'r Adran Iechyd wedi cyhoeddi adolygiad o gylch un gwaith recriwtio a dethol i hyfforddiant arbenigol y rhaglen moderneiddio gyrfaoedd meddygol, yr ymgymerwyd ag ef drwy'r Gwasanaeth Hyfforddi a Chymhwyso Meddygol. Bydd yr adolygiad yn cael ei arwain gan yr Athro Neil Douglas, is-lywydd Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol a llywydd Coleg Brenhinol y Ffisigwyr yng Nghaeredin. Bydd y tîm adolygu yn cynnwys aelod o Gymru. Disgwylir i'r tîm adolygu adrodd erbyn diwedd mis Mawrth a rhagwelir y bydd y ffordd y mae swyddi hyfforddi yn cael eu rhannu yn gynwysedig yn yr adroddiad terfynol.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyled gronedig Comisiwn Iechyd Cymru? (WAQ49859)

**Brian Gibbons:** Yr oedd y lefel o gymorth ariannol a roddwyd i Gomisiwn Iechyd Cymru yn £10.0 miliwn yn 2004-05, £18.3 miliwn yn 2005-06 a £5.0 miliwn yn 2006-07, gan roi cyfanswm cronnus o £33.3 miliwn. Mantolir y cyfrifon yn 2006-07.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cronfeydd sydd ar gael gan Gomisiwn Iechyd Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, ac ar gyfer y flwyddyn nesaf, i dalu am driniaethau newydd? (WAQ49860)

**Brian Gibbons:** Ar gyfer blwyddyn ariannol 2006-07, cafodd Comisiwn Iechyd Cymru arian penodol o £12.9 miliwn ar gyfer triniaethau ychwanegol er mwyn cwtogi amseroedd aros. Yr oedd y ddarpariaeth newydd hon yn cynnwys £10 miliwn i gynyddu triniaethau arbenigol a diagnosis am glefyd cardiaidd yn cynnwys angiograffeg ac angioplasteg ar draws Cymru. Cafodd y £2.9 miliwn arall ei gyfeirio tuag at gynyddu'r ddarpariaeth llawdriniaeth blastig, niwrolawdriniaeth, llawdriniaeth arennol a llawdriniaeth bediatrig er mwyn cyrraedd targedau'r Gweinidog o ran amseroedd aros.

Yn ychwanegol at y cyllid rhestrau aros wedi'i dargedu a amlinellwyd uchod, nodai'r cynllun comisiynu ar gyfer y comisiwn werth £4.659 miliwn o arian buddsoddi. Cafodd yr arian hwn ei gyfeirio at nifer o flaenoriaethau allweddol yn cynnwys datblygu'r capasiti i drawsblannu mêr yr esgyrn, datblygu capasiti arennol ychwanegol, cynnydd mewn triniaethau unigol uchel eu cost ac amryw o gynlluniau a oedd wedi'u targedu at gynyddu'r capasiti ymgynghorol mewn amryw o arbenigeddau.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2007-08, bydd y comisiwn yn cael yr un lefel o gyllid penodol ar gyfer rhestrau aros ag a ddarparwyd yn 2006-07, cyfanswm o £12.9 miliwn. Mae'r arian hwn yn debygol o gael ei gyfeirio at yr un blaenoriaethau ag a ddisgrifiwyd ar gyfer 2006-07.

Mae'r comisiwn wedi cael cynnydd ariannol cyffredinol o 3.5 y cant ar gyfer 2007-08. Mae cynllun comisiynu yn cael ei baratoi ar hyn o bryd, a fydd yn pennu'r cydbwysedd rhwng talu costau cyfredol y gwasanaethau presennol, yr arbedion sy'n ofynnol a phenderfyniadau buddsoddi. Mae arian datblygu penodol wedi cael ei ddarparu ar gyfer therapïau addasu clefydau o ran sglerosis ymledol a brachytherapi.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr arweiniad a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i staff a rhieni ynghylch trin plant ysgol sydd â llau pen? (WAQ49861)

**Brian Gibbons:** Mae rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael ei nodi fel rôl hyrwyddo iechyd ac yr ydym wedi cyhoeddi taflen i'w defnyddio mewn ysgolion, sy'n egluro'r pwnc ac yn ei normaleiddio ac yn rhoi gwybodaeth fanwl am sut i drin y pla. Cawn lawer o geisiadau gydol y flwyddyn am gopïau o'r daflen oddi wrth ysgolion, practisiau meddygon teulu a'r cyhoedd. Mae'r daflen ar gael yn rhad ac am ddim.

Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn polisi o ymyriadau wedi'u targedu, gan fod hyn yn gallu arwain at erledigaeth plentyn unigol am gyflwr nad yw'n achosi niwed uniongyrchol. Nid yw cynllun gwaredu cenedlaethol yn cael ei ystyried yn briodol; yn hytrach, cynghorir gweithredu mewn ffordd sy'n cael ei chyd-drefnu rhwng athrawon, rhieni a'r gymuned ehangach.

Cydnabuwyd bod archwiliadau rheolaidd yn yr ysgol gan nyrs ysgol nid yn unig yn aneffeithiol i fynd i'r afael â llau pen yn y tymor hir ond eu bod hefyd yn gallu arwain at synnwyr ffug o sicrwydd. Rhaid i'r cyfrifoldeb am archwilio ac unrhyw fesurau rheoli orffwys gyda'r rhiant unigol (sydd yn y sefyllfa orau i ganfod pla).

Er mwyn annog y dull hwn, mae cymdeithasau rhieni athrawon rhai ysgolion wedi trefnu sesiynau hybu iechyd teuluol gyda gweithwyr iechyd proffesiynol. Bydd llawer o ysgolion yn cymryd rhan yn y diwrnodau cenedlaethol lladd llau (31 Ionawr, 15 Mehefin a 31 Hydref 2007), sy'n ceisio sicrhau bod plant a rhieni'n gwybod sut i ganfod a thrin llau pen.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am recriwtio ceiropractyddion? (WAQ49862)

**Brian Gibbons:** Mae ceiropractyddion yn rhan o broffesiwn gofal iechyd annibynnol sy'n tyfu'n gyflym. Mae'r Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol yn cadw cofrestr o geiropractyddion sy'n cyrraedd ei safonau o ran hyfforddiant, sgiliau proffesiynol ac iechyd. Nid ydynt yn cael eu cynnwys yng ngwybodaeth yrfaol nac ym mhrosesau cynllunio gweithlu Llywodraeth Cynulliad Cymru gan nad oes ceiropractyddion yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG.

**Helen Mary Jones:** Yn dilyn ei ateb i WAQ4928; a wnaiff y Gweinidog restru'r ysbytai hynny a gaewyd ym mhob blwyddyn a'u lleoliad? (WAQ49863)

**Brian Gibbons:** Caeodd yr ysbytai canlynol rhwng 1997 a 2006:

**Ysbytai a gaewyd 1997-2006—yn cynnwys arbenigedd**

| **Ysbyty** | **Blwyddyn** | **Arbenigeddau** |
|---|---|---|
| Brynhyfryd | 1997 | Anawsterau dysgu |
| Uned breswyl Gwynfa | 1997 | Seiciatreg plant a'r glasoed |
| Cyffredinol Pen-y-bont ar Ogwr | 1998 | Llawfeddygaeth gyffredinol |
| | | Clust, trwyn a gwddf |
| | | Offthalmoleg |
| | | Llawfeddygaeth y geg |
| | | Llawfeddygaeth gyffredinol |
| | | Adsefydlu |
| | | Meddygaeth liniarol |
| | | Dermatoleg |
| | | Rhiwmatoleg |
| | | Meddygaeth geriatrig |
| | | Meddygaeth gyffredinol ar wahân i famolaeth |

| | | |
|---|---|---|
| Llys Maldwyn | 1998 | Anawsterau dysgu |
| Ysbyty Mardy | 1998 | Seiciatreg henoed |
| Tywysog Cymru | 1998 | Trawma ac orthopedeg |
| Aberaeron | 1999 | Meddygaeth geriatrig |
| Porth a’r Cylch | 1999 | Llawfeddygaeth gyffredinol |
| | | Wroleg |
| | | Trawma ac orthopedeg |
| | | Clust, trwyn a gwddf |
| | | Offthalmoleg |
| | | Anaestheteg |
| | | Gynaecoleg |
| Treherbert | 1999 | Meddygaeth gyffredinol ar wahân i famolaeth |
| Uned MI Bodfaen | 2000 | Salwch meddwl |
| Y Canolbarth | 2000 | Salwch meddwl |
| | | Seiciatreg henoed |
| Sili | 2001 | Salwch meddwl |
| | | Seiciatreg henoed |
| Ton-teg | 2001 | Seiciatreg henoed |
| Byngalos Ystrad Mynach | 2001 | Anawsterau dysgu |
| Ysbyty Landowne | 2002 | Meddygaeth geriatrig |
| | | Seiciatreg henoed |
| Brenhinol Hamadryad | 2002 | Seiciatreg henoed |
| Cyffredinol Castell-nedd | 2002 | Llawfeddygaeth gyffredinol |
| | | Wroleg |
| | | Trawma ac orthopaedeg |
| | | Rheoli poen |
| | | Meddygaeth gyffredinol |
| | | Gastroenteroleg |
| | | Haematoleg glinigol |
| | | Paediatreg |
| | | Obstetreg |
| | | Gynaecoleg |
| | | Radioleg |
| | | Dibyniaeth uchel |
| | | Gofal dwys |
| Ysbyty Conwy | 2003 | Meddygaeth geriatrig |
| Minfordd | 2004 | Seiciatreg henoed |
| Bryntirion | 2004 | Meddygaeth geriatrig |
| | | Haematoleg glinigol |
| Dobshill | 2004 | Meddygaeth geriatrig |
| Meadowslea | 2004 | Meddygaeth geriatrig |
| Brynseiont | 2004 | Meddygaeth geriatrig |
| | | Meddygaeth liniarol |
| | | Meddygaeth gyffredinol |
| Trevalyn | 2004 | Meddygaeth geriatrig |
| Glynebwy | 2005 | Meddygaeth geriatrig |

**Nodiadau:**

1. Hyd at 30 Mehefin 2006.
2. Nid oes mecanwaith ffurfiol i hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru fod ysbyty wedi cau.
3. Nid yw’n cynnwys ysbytai sydd wedi cau ac wedi ailagor wedyn.
4. Nid yw’n cynnwys ysbytai sydd wedi cau’n rhannol.
5. Nid yw’n cynnwys ysbytai sydd wedi cael eu hailadeiladu gyda’r un enw.

6. Gwybodaeth am arbenigeddau o ran y defnydd o welyau a chleifion mewnol yn unig. Yr oedd rhai ysbytai'n delio ag arbenigeddau eraill ar sail cleifion allanol.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen i frechu ac imiwneiddio plant yng Nghymru? (WAQ49864)

**Karen Sinclair:** Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu adolygu a gwerthuso effaith y brechiad niwmococol cyfunedig Prevenar ar nifer yr achosion o afiechyd niwmococol yng Nghymru? (WAQ49889)

**Karen Sinclair:** A all y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar lefel genedlaethol a BILl ynghylch nifer y plant sydd wedi derbyn y brechiad Prevenar ac sydd nawr wedi'u hamddiffyn a'r rheini sy'n dal yn agored i niwed? (WAQ49890)

**Brian Gibbons:** Mae'r tueddiadau o ran brechiadau plentyndod mewn babanod ifanc wedi bod yn bositif iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2006, cyrhaeddwyd y targed cenedlaethol o 95 y cant i blant blwydd oed am y tro cyntaf mewn mwy na degawd. Yn sgil ychwanegu brechiadau niwmococol at y rhestr ym mis Medi 2006, mae'r rhaglen blentyndod yn diogelu plant Cymru rhag mwy o glefydau nag erioed erbyn hyn.

Mae'r nifer sy'n cymryd y brechiad MMR wedi bod yn gwella'n gyson hefyd ymysg plant dwy oed ac, mewn mwy na hanner y BILlau, mae'n fwy na 90 y cant erbyn hyn. Mae'r nifer o blant pump oed sydd wedi cael dau ddos o MMR, sy'n bwysig er mwyn atal y clefydau mewn ysgolion, yn dal yn gymharol isel ac mae chwarter y plant sy'n dechrau yn yr ysgol heb gael eu hamddiffyn yn llwyr rhag y frech goch, clwy'r pennau a rwbela. Mae un o bob wyth plentyn heb unrhyw amddiffyniad o gwbl yn erbyn y clefydau hyn. Bydd adolygu statws imiwneiddio MMR pob plentyn wrth iddo ddechrau yn yr ysgol, yn unol â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru (WHC (2005)081), yn edrych ar y duedd hon.

Mae'r Asiantaeth Diogelu Iechyd yn arolygu effaith y rhaglen newydd o frechiadau plentyndod a gellir gweld y data diweddaraf drwy ddefnyddio'r dolenni canlynol:
http://www.hpa.org.uk/infections/topics_az/pneumococcal/IPDcumuINvacc.htm
http://www.hpa.org.uk/infections/topics_az/pneumococcal/IPDcumuNOTinVacc.htm

O gymharu'r graffiau sydd wedi'u cynnwys ar y dolenni uchod, gellir dechrau gweld yr effaith y mae'r seroteipiau sydd wedi'u cynnwys ym mrechlyn Prevenar yn ei chael ar y nifer o achosion o glefydau o'u cymharu â theipiau eraill, hyd yn oed mor gynnar â hyn. Mae'n well cynnal gwaith arolygu mor gynnar â hwn ar lefel gyfun Cymru a Lloegr oherwydd y nifer cymharol isel o achosion.

Bydd y cyfraddau manteisio ar frechiadau plentyndod yn ôl oedran (yn cynnwys brechlyn niwmococol cyfun) ar gael o'r wythnos nesaf yn adroddiad COVER chwarter 4 a gyhoeddir gan y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.

**Karen Sinclair:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i uwchraddio'r fflyd o ambiwlansys yng Nghymru? (WAQ49865)

**Brian Gibbons:** Derbynnir bod angen fflyd fwy hyblyg ar wasanaeth ambiwlans modern gyda cherbydau un criw o wahanol fathau sy'n gallu cyrraedd y rhai sydd mewn angen yn fwy cyflym a chefnogi parameddygon sy'n gweithio yn y gymuned. Mae angen newid ac uwchraddio'r fflyd bresennol ar unwaith ac ar yr un pryd mae angen rhoi sylw i'r cymysgedd cerbydau sy'n ofynnol er mwyn addasu i anghenion y presennol a'r dyfodol.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar hyn o bryd yn rhedeg 250 o ambiwlansys brys a 235 o ambiwlansys nad ydynt yn rhai brys, 40 o geir ymateb brys a 47 o gerbydau

cymorth. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu £16 miliwn o gyllid i dalu i derfynu prydlesau ac i brynu cerbydau—119 o gerbydau meddygol brys a 67 o gerbydau gofal i gleifion. Mae ail achos busnes newydd gael ei gyflwyno, sy'n ceisio delio â'r cerbydau prydles hynny sy'n weddill.

O ran y darlun tymor hir, mae'r ymddiriedolaeth ambiwlansys a Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried fformat a rheolaeth y rhaglen adnewyddu cerbydau, a fydd yn gydnaws â'r cynllun moderneiddio, a bydd papur gydag argymhellion yn cael ei gyflwyno i'r bwrdd buddsoddi cyfalaf i gael ei ystyried ganddo.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gomisiynu gwasanaethau cludo cleifion? (WAQ49866)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb yr ymddiriedolaethau aciwt yw comisiynu gwasanaethau cludo cleifion lle nad yw'r achos yn un brys. Mae llawer o ymddiriedolaethau yn comisiynu'r gwasanaeth hwn gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Fodd bynnag, mae eraill yn defnyddio darparwyr preifat/gwirfoddol fel Ambiwlans Sant Ioan. Caiff y gwasanaeth ei ddarparu i gleifion sydd ag angen meddygol am gludiant ond nad ydynt yn achosion brys.

Cyhoeddwyd WHC (2007) 005 ar 12 Chwefror 2007 i hysbysu ymddiriedolaethau GIG a byrddau iechyd lleol am y meini prawf diwygiedig i benderfynu a oes gan glaf angen meddygol am gludiant rhad ac am ddim lle nad yw'r achos yn un brys. Dim ond i siwrneiau cleifion yng Nghymru a siwrneiau cyntaf i ysbytai yn Lloegr y mae'r meini prawf diwygiedig yn gymwys.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drothwy sgôr Gleason ar gyfer cleifion canser y brostad y mae angen triniaeth bracytherapi arnynt? (WAQ49867)

**Brian Gibbons:** Mae sgôr Gleason yn un o sawl dangosydd sy'n cael ei ddefnyddio i asesu cyflwr claf. Neilltuir sgôr rhif i ddangos pa mor wahanol y mae sampl o feinwe prostad yn edrych o'i gymharu â meinwe prostad normal. Ochr yn ochr â thystiolaeth arall, gall clinigwyr ddefnyddio'r sgôr fel sail i benderfyniadau am y driniaeth briodol ym mhob achos.

Mae sgôr Gleason o chwech neu lai, o'i hystyried ynghyd â dangosyddion eraill, yn dynodi canserau cynnar/gradd isel sy'n addas i gael eu trin â brachytherapi dos isel, lle mae'r sylfaen dystiolaeth o blaid yr opsiwn trin hwn ar ei chryfaf.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth ar gyfer pobl sydd ag anhwylderau bwyta yng ngogledd Cymru? (WAQ49868)

**Brian Gibbons:** Mae ystod o wasanaethau arbenigol, yn cynnwys gwasanaethau anhwylderau bwyta, i fod i gael eu darparu yn ardal pob ymddiriedolaeth GIG ar draws Cymru fel rhan o weithredu'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol diwygiedig iechyd meddwl oedolion. Yr ydym wedi gofyn i'r byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru edrych ar y ddarpariaeth gwasanaethau anhwylderau bwyta i gleifion mewnol a datblygu gwasanaethau yn unol â'r strategaethau comisiynu.

Fel arfer ymdrinnir â chleifion anhwylderau bwyta fel rhan o'r ddarpariaeth iechyd meddwl generig yn y gymuned i oedolion a phlant. Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn gweithio gydag ymddiriedolaethau a BILlau yn y De i ddatblygu gwasanaeth peilot anhwylderau bwyta trydyddol arbenigol yn y gymuned i gynorthwyo gwasanaethau iechyd meddwl lleol i drin cleifion sydd ag anhwylderau bwyta. Os bydd y peilot hwn yn llwyddiannus, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi wedyn i gyflwyno'r ddarpariaeth yn raddol ar draws Cymru.

Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu uned CAMHS a godir yn bwrpasol yn Abergele. Bydd yn darparu ar gyfer y bobl ifanc hynny dan 18 oed sydd ag anhwylder bwyta y mae angen triniaeth arbenigol haen 4 arnynt.

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol wedi cael ei gomisiynu i ddatblygu llwybr gofal anhwylderau bwyta i wasanaethau o ofal sylfaenol hyd at ofal trydyddol. Byddem yn disgwyl i bob haen o'r gwasanaeth roi sylw i'r llwybr hwn a chanllawiau clinigol NICE wrth ystyried sut i ddatblygu darpariaeth anhwylderau bwyta. Mae papur trafod wedi cael ei gynhyrchu, a'r ddolen ato yw www.nphs.wales.nhs.uk.

**Trish Law:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r cyswllt rhwng tai gwael ac iechyd gwael? (WAQ49869)

**Brian Gibbons:** Mae'r berthynas rhwng tai gwael ac iechyd gwael wedi cael ei chofnodi'n dda. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i'w pholisi tai, yn enwedig y system mesur iechyd a diogelwch ar gyfer tai, a'r safonau ar gyfer tai cymdeithasol newydd sy'n cael eu hadeiladu.

Cyflwynwyd y system mesur iechyd a diogelwch ar gyfer tai y llynedd ac mae'n cysylltu iechyd a diogelwch yn agos ag amodau tai. Caiff peryglon eu categoreiddio a rhaid i awdurdodau lleol weithredu ar beryglon sy'n flaenoriaeth uchel.

Mae tystiolaeth hefyd fod tenantiaid mewn tai cymdeithasol yn tueddu i fod ag iechyd gwaeth. I fynd i'r afael â hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi safon ansawdd tai Cymru. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r safonau gofynnol o ran ystod eang o amodau ffisegol a rhaid iddynt gael eu mabwysiadu ym mhob annedd sy'n eiddo i bob landlord cymdeithasol cofrestredig erbyn 2012.

Ymysg y mesurau eraill a sefydlwyd sy'n canolbwyntio ar dai, iechyd a lles mae'r canlynol:

- mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi penodi hwylusydd iechyd a digartrefedd. Gan weithio gyda sefydliadau gwirfoddol a statudol, bydd yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu polisi, gwasanaethau ac ymarfer i roi sylw i anghenion iechyd pobl ddigartref;
- mae ymgyrch gofal piau hi y gaeaf hwn yn helpu i fynd i'r afael â'r cyswllt rhwng iechyd a thai drwy'r cynlluniau canlynol:
    - mae'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref a gyllidir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig grantiau tuag at becyn o waith insiwleiddio a gwresogi'r cartref i'r rhai sy'n gymwys—yn benodol, pobl 60 oed a throsodd a grwpiau eraill difreintiedig;
    - mae'r asiantaeth Gofal a Thrwsio (sydd wedi'i lleoli ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru) yn darparu gwasanaeth i helpu pobl hŷn i wneud gwaith atgyweirio ar y cartref a manteisio ar grantiau neu fudd-daliadau. Ym mis Chwefror 2007, cyhoeddodd Edwina Hart AC becyn cyllido o £4,366,000 ar gyfer sefydliadau Gofal a Thrwsio, cynnydd o 3.69 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Jeff Cuthbert:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella mynediad at ddiffibrilwyr mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru? (WAQ49871)

**Brian Gibbons:** Mae darparu diffibrilwyr o fewn cyrraedd i'r cyhoedd yn wasanaeth pwysig yng Nghymru, yn enwedig am fod clefyd coronaidd y galon yn gyffredin yng Nghymru, gyda chyfradd farwolaethau uchel o'r cyflwr. Diben cynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu diffibrilwyr o fewn cyrraedd i'r cyhoedd yw cynyddu cyfraddau goroesi'r rhai sy'n dioddef ataliad y galon yn y gymuned. Mae'r cynllun yn cael ei redeg ar y cyd ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Chomisiwn Iechyd Cymru. Mae'n darparu cyllid i leoli diffibrilwyr allanol awtomatig ar

safleoedd dethol ledled Cymru gydag £80,000 i brynu offer, a £61,000 ar gyfer rhaglen hyfforddi gynaliadwy i sicrhau defnydd priodol, a'r defnydd gorau posibl, o'r peiriannau.

Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2006, adroddodd WAST fod cyfanswm o 48 o ddiffibrilwyr wedi cael eu gosod ar draws Cymru a bod cyfanswm o 294 o wirfoddolwyr wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r offer a 39 o staff wedi cael hyfforddiant gloywi. Mae'r cynllun hefyd yn caniatáu i sefydliadau gyllido eu diffibrilwyr eu hunain ac, o ganlyniad, maent wedi'u lleoli ar 38 o safleoedd ar draws Cymru ac mae 310 o wirfoddolwyr wedi cael hyfforddiant. Dim ond gyda chymeradwyaeth y gwasanaeth ambiwlans lleol y caiff diffibriliwr ei ddyfarnu i unrhyw sefydliad. Mae hyn yn caniatáu rhywfaint o gyd-drefnu, rheoli ac archwilio safleoedd hunangyllido.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn gwasanaethau iechyd cymunedol? (WAQ49872)

**Brian Gibbons:** Y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am iechyd a lles pobl sydd fel arfer yn byw yn eu hardal. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gefnogi a chryfhau gwasanaethau cymunedol yng Nghymru yn unol â'r cyfeiriad polisi a nodwyd yn y 'Cynllun Oes'.

Ychwanegir at hyn gan y fframwaith gwasanaethau cymunedol a gyhoeddir cyn bo hir a chanllawiau perthnasol eraill fel y canllawiau comisiynu, y strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles, a'r model a'r fframwaith ar gyfer cyflyrau cronig.

Bwriedir cyhoeddi'r fframwaith gwasanaethau cymunedol yn fuan a bydd yn:

(i) sefydlu gweledigaeth o wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wedi'u seilio yn y gymuned yn y dyfodol, gyda'r nod o ddiwallu anghenion pobl yn y gymuned yn y ffordd fwyaf effeithiol gan ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael inni. Gwneir hynny yng nghyd-destun datblygiadau hyd yma, yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, gan gydnabod pwysigrwydd materion y mae angen rhoi sylw iddynt o ran y cysylltiad rhwng gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thai;

(ii) rhoi arweiniad cadarn i gyrff lleol o ran yr hyn y mae rhaid iddynt hwy ei wneud i ddatblygu gwasanaethau cynhwysfawr ac integredig ar gyfer eu hardaloedd lleol.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ad-drefnu ysbytai yn Abertawe? (WAQ49873)

**Brian Gibbons:** Erbyn hyn mae cymuned iechyd Abertawe a'i phartneriaid wedi datblygu rhaglen amlinellol strategol, sy'n amlinellu'r opsiynau o ran y ddarpariaeth gwasanaethau iechyd aciwt, iechyd meddwl a gwasanaethau cymunedol yn Abertawe. Mae'r rhaglen amlinellol hon yn cael ei hystyried gan y Cynulliad ar hyn o bryd ynghyd â rhaglenni amlinellol eraill ar gyfer pob rhanbarth o Gymru. Yn ystod y gwanwyn, bydd rhaglen gyfalaf newydd i Gymru gyfan yn cael ei llunio, ar sail y rhaglenni amlinellol hyn, a fydd yn nodi'r blaenoriaethau gwariant cyfalaf arfaethedig i Gymru am y 10 i'r 15 mlynedd nesaf.

Bydd angen gwerthuso'r gwahanol opsiynau sydd ar gael o ran gwasanaethau aciwt yn Abertawe yn llawn drwy broses buddsoddi cyfalaf Cymru gyfan y GIG, cyn y gellir nodi opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Mae gwaith ar y gweill eisoes i baratoi achos busnes amlinellol strategol, a ddylai gael ei gwblhau tua diwedd 2007. Bydd hwn yn edrych ymhellach ar yr opsiynau o ran yr un ysbyty integredig sy'n cael ei gynnig. Mae'n annhebygol y caiff yr opsiwn terfynol ei gadarnhau hyd nes y bydd yr achos busnes amlinellol wedi cael ei ddatblygu a'i gyflwyno yn ystod 2008.

O ran y cynigion i gau gwasanaethau yn Ysbytai Hill House a Fairwood, yn unol â'n canllawiau ar gynigion i newid gwasanaethau iechyd, mae'r ymdrechion yn canolbwyntio ar benderfynu'n lleol beth sydd er lles pennaf cleifion. I'r perwyl hwnnw, mae'r cyngor iechyd cymuned yn bwrw ymlaen â gwaith i sicrhau bod pob posibilrwydd yn cael ei archwilio wrth geisio cytuno ar y ddarpariaeth gwasanaethau yn Abertawe i'r dyfodol. Mae'r cyngor iechyd cymuned yn ystyried y wybodaeth ychwanegol y mae wedi ei

chael oddi wrth y BILl a'r ymddiriedolaeth. Trefnwyd gweithdy ar 3 Ebrill i sicrhau bod ystyriaeth drylwyr yn cael ei rhoi i'r wybodaeth hon.

Ar ôl y gweithdy, bydd y CIC yn cwrdd yn ffurfiol â swyddfa ranbarthol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru ganol mis Ebrill i symud y gwaith hwn yn ei flaen. Byddai'n amhriodol dyfalu pryd y caiff penderfyniad terfynol ei wneud oherwydd bydd yn dibynnu ar ganlyniad y gweithdy. Nid ydym wedi cyrraedd cyfnod lle mae cytundeb terfynol wedi cael ei daro na phenderfyniadau wedi cael eu gwneud.

Os na ellir dod i gytundeb ar ôl y gweithdy a'r wybodaeth bellach a ddarparwyd gan yr ymddiriedolaeth a'r BILl, bydd y swyddfa ranbarthol yn cwrdd â hwy eto i weld a oes modd datrys y mater. Os na ellir cytuno bryd hynny, bydd unrhyw gynnig yn cael ei anfon ataf fi i mi ei ystyried a phenderfynu arno.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynigion i ailgyflunio'r GIG ym Mhowys? (WAQ49874)

**Brian Gibbons:** Bwrdd Iechyd Lleol Powys sy'n gyfrifol am wella iechyd a lles pobl Powys. Yn unol â chyfeiriad strategol y Cynulliad yn y 'Cynllun Oes', mae BILl Powys wedi ymgynghori'n ddiweddar am ei gynigion bras i ailgyflunio gwasanaethau i'r dyfodol fel rhan o broses ymgynghori'r strategaeth 'Doing More, Doing Better'. Erbyn hyn mae'r BILl wedi nodi y bydd yn dod â chynigion mwy penodol gerbron i ymgynghori yn eu cylch er mwyn gweithredu ei strategaeth.

Cytunwyd na ddylai gwasanaethau ysbyty gael eu hailgyflunio hefyd ddarpariaeth gymunedol sydd wedi cael ei chynllunio'n ddigonol, a bod rhaid ymgynghori â'r cyhoedd cyn i unrhyw ailgyflunio ddigwydd.

Mae dogfen fframwaith ddrafft am wasanaethau cymunedol yn cael ei pharatoi a bydd angen i BILl Powys ystyried y fframwaith hwn yn ofalus wrth lunio ei gynigion i ddatblygu gwasanaethau lleol yn y dyfodol.

**Jenny Randerson:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r buddiannau a ddaw i gapasiti'r gwasanaeth yn sgil defnyddio cemotherapi ar ffurf moddion trwy'r geg ar gyfer trin canser? (WAQ49553)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Brian Gibbons:** Wrth i'r defnydd o gemotherapïau gynyddu, bydd rhai manteision capasiti gwasanaeth o ran lleihau'r pwysau ar unedau fferylliaeth aseptig ac unedau nyrsio cemotherapi dydd.

Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio ag ystyried cemotherapi ar ffurf moddion drwy'r geg fel opsiwn hawdd. Gall y peryglon sy'n gysylltiedig ag ef fod lawn cymaint â'r peryglon sy'n gysylltiedig â chemotherapi confensiynol. Bydd angen adnoddau helaeth o hyd gan y timau arbenigol sy'n darparu gwasanaethau cemotherapi ar hyn o bryd i gefnogi'r cleifion hyn.

Rôl y rhwydweithiau canser fydd gweithio gyda'r rhanddeiliaid i gyd i ddatblygu modelau gwasanaeth sy'n cael eu ffafrio i ddarparu gwasanaethau canser ar draws Cymru. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ystyried effaith newidiadau yn y ffordd o roi cemotherapi yn y dyfodol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47900) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Leanne Wood:** Faint y mae'r Prif Weinidog wedi'i wario ar ffioedd ymgynghorwyr ym mhob blwyddyn rhwng 2002-03 a 2005-06? (WAQ48521) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at WAQ47898 a WAQ48518.

**Glyn Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau a yw ei Adran yn defnyddio golau traffig mewnol neu system o godau lliw mewn perthynas â Chwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad ac a yw'r Adran yn graddio neu ddosbarthu Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad yn ôl eu sensitifrwydd gwleidyddol? (WAQ48748) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ48749.

**Glyn Davies:** Faint o staff yn adran y Gweinidog a dderbyniodd fonws ar sail perfformiad yn 2005-06 a 2004-05? (WAQ48756) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i WAQ48761.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud cymunedau'n fwy diogel yng Nghymru? (WAQ49850)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Mae cronfa ymladd troseddau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio lleihau ofnau pobl am droseddu ac ymdrin â throseddu sy'n gysylltiedig â chyffuriau, yn cynnwys triniaeth effeithiol i bobl sy'n gaeth i gyffuriau, ac ar hyn o bryd mae'n werth dros £132 miliwn. Mae'r gronfa'n darparu cymorth i amryw o gynlluniau gan y Cynulliad sy'n effeithio ar ddiogelwch cymunedol, ac mae'n cynnwys cyllid i fynd i'r afael â, a thrin, camddefnyddio sylweddau, dadrithiad mewn ysgolion, trais yn y cartref, troseddu gan bobl ifanc, cymorth i Ymgyrch Tarian a thai i gyn-droseddwyr. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2002 a mis Mawrth 2006, mae'r troseddau a gofnodwyd yng Nghymru wedi gostwng 15 y cant.

**Alun Cairns:** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i roi yn yr adolygiad o'r arian a ddyrennir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, cynlluniau grant iechyd meddwl lleol a'r cynllun ar gyfer pobl anabl o ran diogelu cyllid mudiadau gwirfoddol annibynnol bach, fel Mind Abertawe, sy'n cefnogi'r rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl? (WAQ49854)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn trafodaeth gyda'r WCVA a rhanddeiliaid eraill am gyllid sector gwirfoddol cyffredinol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Nid oes penderfyniadau wedi cael eu gwneud eto am weinyddiaeth y ddau grant iechyd meddwl yn y dyfodol, a ddylent gael eu cyfuno, pwy fydd yn eu gweinyddu a sut.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gwariant yn ei bortffolio er 1999 ar ymgynghorwyr a gyflogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, gan restru pob eitem o wariant a ddyfarnwyd, cost pob contract, pwrpas pob eitem o wariant a dyddiadau eu dyfarnu? (WAQ47892) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Leanne Wood:** Faint y mae'r Prif Weinidog wedi'i wario ar ffioedd ymgynghorwyr ym mhob blwyddyn rhwng 2002-03 a 2005-06? (WAQ48516) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro.*

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fe'ch cyfeiriaf at WAQ47898 a WAQ48518.

## Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

**Glyn Davies:** Yn dilyn WAQ37399, a yw cynlluniau Pwyllgor y Tŷ wedi newid mewn unrhyw ffordd o ran cyflwyno ffioedd am barcio ceir? (WAQ46108)

**Cadeirydd Pwyllgor y Tŷ (John Marek):** Nid yw cynlluniau Pwyllgor y Tŷ wedi newid.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff cynrychiolydd Pwyllgor y Tŷ ddatganiad am fynediad y cyhoedd yn y Senedd? (WAQ46375)

**John Marek:** Mae'r Senedd ar agor saith diwrnod yr wythnos i'r cyhoedd, ar wahân i gau ar nifer fach o wyliau cyhoeddus, yn cynnwys dydd Nadolig. Mae mynediad dilyffethair i aelodau'r cyhoedd i'r rhan fwyaf o'r adeilad, ac i'r ardal yn union o amgylch y mynediad i'r Siambr a'r ystafelloedd pwyllgora (y Cwrt) pan fyddant yng nghwmni Aelodau, staff cymorth ACau neu weithwyr sy'n ddeiliaid cardiau neu pan fyddant ar deithiau sydd wedi'u trefnu. Mae gan newyddiadurwyr lobi fynediad i'r Cwrt.

**Kirsty Williams:** A wnaiff cynrychiolydd Pwyllgor y Tŷ roi manylion yr amcan o gostau cyfalaf a refeniw llawn sefydlu gwasanaeth cyfrifiadurol ar wahân ar gyfer Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, a hynny yn sgil gweithredu Mesur Llywodraeth Cymru? (WAQ47782)

**John Marek:** Wrth weithredu Deddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd angen i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael systemau cyfrifiadurol ar wahân ar gyfer cyllid ac adnoddau dynol yn ogystal â gwasanaethau technoleg gwybodaeth, a'r rheini wedi cael eu teilwrio i anghenion ACau a'u staff a gweithwyr Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cytunodd Pwyllgor y Tŷ fod angen rhoi sylw i'r gofynion hyn.

Yn ychwanegol at y datblygiadau hyn, mae Pwyllgor y Tŷ wedi penderfynu bod rhai newidiadau seilwaith yn ofynnol. Ar hyn o bryd, mae staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn dibynnu ar fferm weinyddwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays. Mae pryderon ynglŷn â sefydlogrwydd y cyfleuster hwn ac mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu'r sefyllfa. Mae fferm weinyddwyr yr Aelodau eisoes wedi'i lleoli ym mae Caerdydd: felly, penderfynodd Pwyllgor y Tŷ gynyddu'r fferm weinyddwyr ym mae Caerdydd fel y byddai holl ddefnyddwyr cyfrifiaduron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu cysylltu â'r un fferm weinyddwyr ym mae Caerdydd. Mae gwaith adeiladu ynghlwm wrth gynyddu'r fferm weinyddwyr. Nodir y costau cyfalaf a refeniw sy'n gysylltiedig

â'r datblygiadau hyn isod, ond pwysleisiaf mai amcangyfrifon yn unig ydynt ar hyn o bryd a'i bod yn debygol y bydd y costau adeiladu yn is na'r costau a ddyfynnir.

Mae'n bwysig nodi hefyd y rhagwelir y bydd arbedion pres ac effeithlonrwydd yn deillio o wella prosesau a gwaith rheoli gwybodaeth. Er enghraifft, bydd y system adnoddau dynol a chyflogres integredig yn rhoi arbedion o oddeutu £30,000 y flwyddyn. Nid oes manylion am y costau refeniw ar gael hyd nes y byddir wedi cytuno ar y gwasanaethau i Aelodau, gyda gwelliannau.

**Costau rhaglen lefel uchel**
**Costau untro, ar 8 Medi 2006**

| **Eitem** | **Amcangyfrif o'r Gost** | **Disgrifiad / Rheswm** |
|---|---|---|
| Gwahanu TGCh | £1,000,000 | Gwahanu'r seilwaith TGCh, creu lle ar gyfer holl systemau TGCh y Cynulliad |
| Gwaith adeiladu | £360,000 | Creu lle mwy i'r fferm weinyddwyr i storio cyfarpar TGCh yn lleol |
| System gyllid | £212,000 | Rhoi system gyllid bwrpasol ar waith |
| System adnoddau dynol | £180,000 | Rhoi system adnoddau dynol bwrpasol ar waith, i'w dilyn gan ateb cyflogres yn 2008. |